



Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Rali Clybiau
Ffermwyr
Ieuainc**



Tudalen 26

**Cadwyn
Cyfrinachau
arall**



Tudalen 18

**Colofn
newydd i'r
dysgwyr**



Tudalen 23

Tipyn o Sioe yn Steddfod yr Urdd



Gwennan Owen, Llanllwni a enillodd gystadleuaeth 'Llefaru Bl 2 ac iau' yn Eisteddfod yr Urdd.



Côr Ysgol Dyffryn Cledlyn yn cipio'r wobwr gyntaf yng nghystadleuaeth 'Côr Bl 6 ac iau'.



Ela Mablen Griffiths-Jones, Cwrtnewydd a gafodd ddau gyntaf, un ail a dau drydydd yn Eisteddfod yr Urdd.



Cerys Angharad Jones, Ysgol Bro Pedr a gipiodd y wobwr gyntaf yn yr unawd telyn.



Aelwyd Llambled yn cipio'r wobwr gyntaf yng nghystadleuaeth 'Grŵp Llefaru Bl 9 ac iau' am y trydydd tro yn olynol – gwyh. Diolch i Elin Williams am hyfforddi.



Sara Elan a Beca Ann, Aelwyd Llambled yn ennill y Ddeuawd Cerdd Dant Bl 10 ac o dan 19 oed.

Eisteddfod Yr Urdd



Manon Williams, Pencarreg a enillodd gystadleuaeth CadCam o dan 19.



Noa Potter-Jones, Drefach a ddaeth yn ail yn Unawd Bl 2 ac iau.

Chwaraeon



Bechgyn yr ardal a fu'n chwarae yn y ffeinal gyda thîm y Sir ym Mharc y Scarlets yn ddiweddar mewn gêm agos a chyffrous iawn.



Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl droed Dan 14 Llambled am ennill thwrnaint Llanybydder yn ddiweddar!



Tîm pêl droed o dan 10 oed Llambled ar ôl eu buddugoliaeth yn nhwrmaint Aberaeron a thwrnaint Llanybydder bythefnos ar ôl hynny.



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@ysgol_y_dderi
Mai 25

Diwnod olaf Jan yn y siop, ymddeoliad hapus iddi.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@briallt_22
Mai 16

Clwb llyfrau Neuadd yr Hafod yn teithio o amgylch yr ardal heno gyda @CenLlwyd.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@Cloncyn
Mai 15

Diolch i bawb a ddaeth i Gyfarfod Blynnyddol #PapurBro Clonc heno yn y Crosshands #Llanybydder.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@cfillanwenog
Mai 14

Cawsom ein diddanu'n llwyr heno gyda'r tri yma sef Angharad Lan Llofft, Cen Jones ac Eryl Accountant! #seitholi

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
@Clonc360
Mai 12

Llongyfarchiadau i Dîm Pêl-droed #Llanbed am ennill Adran 1 @SCards_Football heddiw 2-1 yn erbyn Castell Newydd Emlyn.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
@Clonc360
Mai 7

Diwrnod arbennig yn Ras Dyffryn Cledlyn heddi. @DyffrynCledlyn @ClwbSarnHelen #diwrnodbraf

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Mehefin Gwyneth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder 480683
Gorffennaf Delyth Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd 422992
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Gwyneth Davies, Sian Jones, Marian Morgan, Delyth Morgans Phillips, Siwan Richards, Lois Williams.

Dylunydd y mis Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Gofynnir i bawb ddatgan eu bod wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfôn pob adroddiad i Bapur Bro Clonc / gwefan Clonc a gwefan Clonc360 a wedi sicrhau caniatâd rhiant neu warcheidwad pob plentyn dan 13 oed.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Siop J H Roberts a'i feibion, Y Stryd Fawr, Llambled.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Pen tost y GDPR

Fe ddaw heriau i ran pob un ohonom o bryd i'w gilydd a'r profiad hwnnw weithiau o orfod gwneud penderfyniadau anodd yn ein gwrthio ni i'r eithaf.

Daeth y Rheoliadau Gwarchod Data Cyffredinol i rym ar y 25ain Mai eleni, neu'r GDPR bondigrybwyll fel eu hadnabyddir er mwyn gwarchod hawliau unigolion lle mae data personol yn y cwestiwn. Pwrpas y GDPR yw sicrhau bod unigolion yn deall sut y defnyddir eu data, cael mwy o reolaeth dros eu data, a deall sut y gallant wneud cwyn ynglŷn â defnydd o'u data.

Mae hynny i'w cymeradwyo wrth gwrs. Efallai i chi dderbyn e-byst rif y gwlith yn gofyn i chi adolygu eich dewisiadau preifatrwydd gyda gwahanol gwmnïoedd. Eu hanwybyddu y bydd llawer ohonon ni yn y gobaith y cawn lonydd ganddynt wrth beidio ymateb.

Mae'r rhod wedi troi. Mae'r hawl gan unigolion i ddewis dweud eu bod am ymuno â rhestr farchnata erbyn hyn, yn hytrach na dewis tynnu mas o gynllun tebyg. Mae hyn yn destun pryder i nifer fawr o gwmnïoedd mawr sy'n dibynnu ar ddulliau fel hyn o farchnata a chyrraedd cwsmeriaid posib.

Beth amdanon ni?

Ond sut mae hyn yn effeithio arnon ni ar lawr gwlad os ydyn ni'n defnyddio data personol pobl eraill? Yn y gwaith efallai? Neu hyd yn oed yn y capel neu'r Clwb Ffermwyr Ifanc?

Gall hyn fod yn dipyn o niwsans mewn cymuned lle rydych chi wedi arfer ag ymddiried mewn pobl wrth iddynt ddefnyddio data personol. Beth am adroddiad ariannol y capel er enghraifft? Bûm yn rhan o drafodaeth mewn capel yn ddiweddar lle mynegwyd na fydd hawl cynnwys enwau pobl wrth ochr eu cyfraniadau. Ond mae pobl yn hoffi

dangos cyfanswm eu rhoddion, ac o guddio hyn, efallai na chyfrennir mor hael ganddynt tuag at yr achos yn y dyfodol.

Data Papuru Bro

Yn achos papurau bro, bu'n destun trafod mewn cyfarfod cenedlaethol, yn Fforwm Papurau Bro Ceredigion ac mewn cyfarfodydd blynyddol. A fydd gweinyddu'r rheoliadau newydd hyn yn creu gormod o lwyth gwaith ychwanegol i wirfoddolwyr caredig? "Paid â disgwyl adroddiadau wrtha i" oedd ymateb un gohebydd gweithgar "os wyt ti'n disgwyl i fi holi caniatâd pawb cyn cynnwys eu henwau."

Mae'n golygu cydbwysedd sensitif a chall. Dyn ni ddim eisiau creu gwaith papur beichus a gweld tranc y papur bro, ond ar y llaw arall, dylem barchu'r rheoliadau a defnyddio tipyn o synnwyr cyffredin. Rhaid cofio mai gwirfoddolwyr yw asgwrn cefn bywyd cymdeithasol cefn gwlad a gwirfoddolwyr sy'n ymdrechu i gynnal yr iaith Gymraeg mewn eisteddfodau a chymdeithasau lleol.

Fel unigolion gallwn fod yn ymwybodol o hynny wrth barhau i ymddiried lle mae data personol yn y cwestiwn, ac fel gwirfoddolwyr gallwn gymryd camau i fod yn ofalus gyda data personol pobl eraill a manteisio ar hyfforddiant lle mae hwnnw ar gael.

Data i'r gymuned

Un o brif rôl papur bro yw cyhoeddi penblwyddi, penblwyddi priodas, genedigaethau, marwolaethau, tostrwydd a chyraeddiadau personol. Oes wirioneddol angen caniatâd i'w cynnwys nhw mewn papur bro? Mae Mrs Williams drws nesaf yn gwerthfawrogi darllen y rhain, ac mae yna elfen o syrpreis yn hwb i'r galon wrth iddynt gael eu cyhoeddi heb eich caniatâd. Dyma wasanaeth gwerthfawr i'r

gymuned.

Wrth i chi ddarllen y rhifyn hwn o Clonc, fe welwch chi fan newidiadau. Ceisiwn beidio cyhoeddi cyfeiriadau personol llawn, a gofynnwn am ganiatâd cyn cyhoeddi enwau cystadleuwyr Swdocw a Lincyn Loncyn yn y dyfodol. Bydd rhaid i chi hefyd roi eich caniatâd er mwyn i ni gyhoeddi eich enwau yn y papur tasech chi'n ennill Clwb Clonc, ond gwneir hynny wrth ail gasglu aelodaeth. Mwy o waith, mi wn, ond popeth yn ei dro.

Newid i'r drefn

Gofynnir i ohebwyr, cyfranwyr, clybiau, grwpiau ac ysgolion ddatgan eu bod wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfôn pob adroddiad i Clonc a'r gwefannau, ac wedi sicrhau caniatâd rhiant neu warcheidwad pob plentyn dan 13 oed.

Rydym wrthi'n diweddarau ein polisi preifatrwydd, a gellir darllen y polisi hwnnw ar wefan Clonc maes o law. Dydyn ni ddim yn rhannu unrhyw ddata gydag unrhyw un na chorff arall, nac yn cadw unrhyw ddata personol sensitif. Gwaredir unrhyw ddata ar gyfrifon e-bost bob mis, ac adolygir unrhyw gyfeiriadau e-bost yn flynyddol.

I ychwanegu ymhellach at y penbleth, daeth y wybodaeth ganlynol i law Clonc ar ôl i ni edrych ar ein trefniadau, cyhoeddi rhybudd a chynnal hyfforddiant yn ein Cyfarfod Blynyddol. Mae Erthygl 85 o ddeddf y GDPR mae'n debyg, yn eithrio newyddiaduriaeth, gwaith celfyddydol a llenyddol o oblygiadau rheoli data'r GDPR. Ble ydyn ni'n sefyll wedyn?

Heriau? Penderfyniadau? Caniatâd? Cyhoeddi? Peidio cyhoeddi? Ie, tipyn o ddrysych. Felly ar ran Clonc, gofynnwn am sensitifrwydd, amynedd a dos go lew o synnwyr cyffredin.

Cloncyn

**Mae'n amser ymuno
â Chlwb Clonc.**

Llenwch y ffurflen ar dudalen 23.

**Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn
cytuno ag unrhyw farn
yn y papur hwn.**

CYMRAG

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru



MEHEFIN

8 Sioe Theatrig 'Y Freuddwyd' yn adrodd stori'r cenhaden fel rhan o ddathliadau Cymru – Madagasgar yn Celaeron, Neuadd-lwyd am 7.30y.h.
14 Recordio Noson Lawen yng Nghanolfan Hamdden Llambled am 7 i 7.30yh. Elin Fflur yn cyflwyno Dafydd Iwan, Delwyn Siôn, Welsh Whisperer, Gwyneth Glyn, Twm Morys, Ifan Gruffydd, Côr Seingar a Chôr Ysgol Bro Teifi.

15 Recordio Noson Lawen yng Nghanolfan Hamdden Llambled am 7 i 7.30yh. Sorela yn cyflwyno Rhys Meirion, Colorma, Alejandro Jones, Iwan John, Côr Merched Ger y Llu, Mari Mathias, Cennydd Jones, Côr Adran ac Aelwyd Llambled.

16 Recordio Noson Lawen yng Nghanolfan Hamdden Llambled am 7 i 7.30yh. Ifan Jones Evans yn cyflwyno Ryland Teifi, Meinir Gwilym, Gillian Elisa, Boncath, Côr Dwyntant, Bois y Rhedyn ac Alwena Mair Owen.

16 Gig gyda Bryn Fon a Beth Celyn yn Neuadd Fictoria, Llambled am 8.00y.h. Oedolion £10, Plant £5. Tocynnau gan Ann Morgan 422413.

17 Recordio Noson Lawen yng Nghanolfan Hamdden Llambled am 7 i 7.30yh. Terwyn Davies yn cyflwyno Athena, Calan, Lowri Evans a Lee Mason, Llywelyn Ifan Jones, Sam Ebenezer, Côr Ysgol Gerdd Ceredigion ac Eraill.

17 Cyngerdd yng Nghapel Maesyffynnon, Llangybi yng nghwmni 'Parti Ffrindiau' am 7.30y.h. Pris Mynediad £5. Elw tuag at y Capel.

22 Ffair Haf Ysgol Carreg Hirfaen am 4.00y.p. Croeso cynnes i bawb.

22 Pwyllgor R.A.B.I. Ceredigion yn cynnal Noson Gwis yng Nghlwb Rygbi Aberaeron.

28 Noson Goffi yn Neuadd Gymunedol Llanllwni am 7.30yh.

30 Carnifal Llanybydder. Thema: Disney.

GORFFENNAF

4 Plygu CLONC yn Ffestri Shiloh, Llambled am 4.00y.p.

27 BBQ yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant.

28 Ffair Fwyd Llambled.

AWST

4 Carnifal Llambled. Thema: 'Beth ydw i'n moyn bod ar ôl tyfu'.

10 Sioe Amaethyddol Llambledr Pont Steffan ar gaeau Pontfaen.

11 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.

18 Sioe Gorsgoch.

19 Pwyllgor R.A.B.I. Ceredigion yn cynnal Ras Hwyaidd yng Nglanwern, Felinfach.

25-27 Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen, Llambled.

27 Sioe Flynyddol C.F.F.I. Llanllwni a'r elw yn cael ei rannu rhwng Uned Gofal y Fron, Ysbyty Tywysog Philip ac 'Epilepsy Action'.

MEDI

5 Plygu CLONC yn Ffestri Shiloh, Llambled am 4.00y.p.

8 Ffair Ram ar Gae Pentref Cwmann a Thaith Tractorau.

22 Cyngerdd yng nghwmni Côr Bro Meirion yn Theatr Felinfach dan nawdd Eisteddfod Rhys Thomas James, Panyfedwen.

Llanfair Clydogau

Cwrs Cymorth Cyntaf

Ar nos Lun, Mawrth 31ain, daeth Michael Morgan i'r neuadd i redeg Cwrs Cymorth Cyntaf i bobl y pentre'. Roedd lle ar y cwrs i 30 ac yn wir roedd bron cymaint â hynny yn bresennol. Cawsom noson addysgiadol a diddorol iawn. Efallai mai rhan orau'r noson oedd cael y cyfle i ymarfer CPR ar ddymis plastig/rwber - rhai maint oedolion a rhai maint plant. Roedd tipyn i'w gofio ond rwy'n siŵr bod y rhan fwyaf ohonom wedi elwa llawer o'r noson. Diolchodd Alan Leech i Michael Morgan am ei gyflwyniad gan ddweud y byddai'r cyfan a ddysgwyd yn gymorth mawr i'r pentrefwyr ar ôl iddynt gael y diffibriliwr.

Noson o Hen Luniau

Cawsom noson yn llawn atgofion ar nos Fawrth, Mai 8fed, pan ddaeth Euros Jones i ddangos hen luniau o'r ardal - rhai o Lanfair a Chellan a rhai ychydig yn bellach i ffwrdd. Roedd tua 15 yn bresennol, rhai wedi byw yn lleol erioed ac yn cofio'r hen lefydd yn dda. Diolchodd Alan Leech i Eirios am roi'r casgliad at ei gilydd a dod i'w ddangos i ni. Ar ddiwedd y noson, cawsom de a bisgedi gyda chyfle i gymdeithasu a siarad am y lluniau.

Gwasanaeth Iechyd Hywel Dda

Ar ddydd Llun am 2yp ac yna am 7yh, cafwyd cyfarfod yng ngofal Linda Quelch a Glennis

Llanfair

Gratwick, y ddwy wedi bod mewn cyfarfod yn ddiweddar ynglŷn â'r newidiadau sy'n wynebu pawb yn nhalgylch y gwasanaeth uchod. Ar ôl gweld y wybodaeth oedd wedi ei pharatoi ar y sgrin, cafwyd cyfle i ddweud ein dweud am yr holl newidiadau yn y fantol. Cymhellwyd pawb i lanw'r holiadur sy'n agored i bawb i wneud rhwng Ebrill 19eg a Gorffennaf 12fed, 2018. Yn dilyn yr adroddiad, cafwyd trafodaeth ddiddorol iawn am rai o'r pwyntiau oedd wedi cael eu codi. Diolch i'r ddwy am yr holl wybodaeth a gawsom a bu llawer o siarad dros baned ar ôl gorffen.

Codi Arian

Pleser mawr oedd clywed am ymdrechion rhai o ferched y pentre' i godi arian at wahanol elusennau. Cerddodd Anwen Bell, Sioned Lewis, Avril a Claire Parsons 21 milltir o Aberaeron i Lanbed gan godi symiau o arian sylweddol - Anwen at elusen MIND, Sioned at Fferm Denmark ac Avril a Claire at gael diffibriliwr i bentref Llanfair sy'n mynd i gael ei leoli y tu allan i'r neuadd. Da iawn chi am wneud y fath ymdrech.

Cydymdeimlo

Trist oedd clywed am farwolaeth sydyn Alan Francis, gynt o Oxen Hall, a bellach o Lethr Villa. Roedd Alan wedi byw yn Llanfair ers blynyddoedd lawer ac wedi treulio tipyn o'i amser yn gweithio ar fferm Pentrelan. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu'n gymorth mawr i Barbara Tucker yn ei hafiechyd. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Karen, ei ferch a'r teulu.

Achubiaeth!

Un bore braf pan oedd Alex Fox, Awelon allan yn marchogaeth ei cheffyl ar heol Llanfair, gwelodd hwyaden mewn trafferthion. Disgynnodd o'i cheffyl i weld beth oedd yn bod a sylwi bod yr hwyaden fach yn cerdded o amgylch grid oedd ar ymyl yr heol. Wrth edrych i lawr drwy'r bariau, gwelodd sawl hwyaden fach yn nofio yn y dŵr. Ymdrechodd yn galed i symud y grid haearn ond roedd yn rhy drwm. Yn sydyn, pwy oedd yn digwydd mynd heibio ond David a Katie James, Pandy ac roedd y ddau yn awyddus i helpu! Dyma David, drwy lwc a bendith, yn llwyddo i godi'r grid trwm ac achub yr hwyaid bach o'r dŵr. Wel, dyna beth oedd llawenydd mawr wrth gario'r rhai bach tuag at y meilart gyda mam yn eu dilyn yn cwacian ei diolch yn ddi-ben-draw. I ffwrdd â'r teulu bach wedyn yn hapus eu byd.

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

Masnachwyr coed, ffensiô a nwyddau adeiladu o bob math. Tanwydd gan gynnwys nwy FloGas a glo caled a meddal o'r ansawdd gorau

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Registered Business

Peiriannydd Gwres Canolog Trwsio, gwasanaethu a gosod boeler

Ffôn: 07811052757

Ebost: dandrewj@icloud.com


Gwersi TELYN a Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach cysylltwch â

Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffynau Olew
- Pymptau Gwres o Ffynonhellau'r ddaear a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Cwrtnewydd

Llwyddiant ysgubol yn yr Urdd.

Daeth llwyddiant aruthrol i Ela Mablen Griffiths-Jones, Fronddu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Brycheiniog a Maesyfed yn ystod gwyliu hanner tymor pan gipiodd ddwy wobwr gyntaf am lefaru a cherdd dant Bl 3 a 4, un ail yn yr unawd Bl 3 a 4 a dwy drydedd wobwr yn yr alaw werin Bl 6 ac Iau. Roedd hefyd yn canu deuawd gydag Eos Dafydd yn yr un oedran.



Yn Eisteddfod Gadeiriol Talgarreg ar Ddydd Sadwrn, Mai 5ed, roedd Ela Mablen Griffiths Jones o Gwrtnewydd yn gyntaf yn yr unawd a'r llefaru dan 10 oed.

Cwmsychpant

Diolch

Dymuna Mrs Olive Davies, Arosfa ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, blodau a rhoddion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn ddiweddar.

Dyweddïo

Llongyfarchiadau i Catrin Jones, Talar Wen gynt a Rhydian James ar eu dyweddïad ar ddiwedd mis Mai. Pob dymuniad da.

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Roy Rees, Pantronnen yn teimlo ychydig yn well erbyn hyn ar ôl treulio'r wythnosau diwethaf yn ysbyty Glangwili. Cofion cynnes atoch.

Cefn Hafo

Gorsgoch

Cyri bob nos Wener,
£6 y pen

Prydiau bwyd ar gael drwy'r
wythnos

Nos Lun— Nos Sadwrn

Bwyd Cartref a Chwrrw da.
Croeso cynnes i bawb!
01570 434 238

Codi arian at achos da.

Daeth saith ar hugain o bobl leol o ardal Cwmann, Llambled a Llanybydder ynghyd yn ddiweddar ar gyfer taith gerdded i godi arian at glefyd yr arennau. Dechreuom ein taith ger yr ysgol yng Nghwmann a bant â ni i lawr i Barc y Rhos, o amgylch Cilgell Ganol a'r Felin ac i Ddeunant cyn cyrraedd yn ôl yng Nghwmann. Diolch i gymuned Pencarreg am roi £200 ac i'r gwirfoddolwyr a gasglodd £958 yn cynnwys £250 oddi wrth y cyn Ddynion Tân. Roedd yna gwmni da ar y daith ac roedd hi'n ddiwrnod llwyddiannus dros ben.

CFfl Cwmann

Mae'r aelodau wedi bod yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer cystadlaethau'r rali a diolch i bawb a fu'n cynorthwyo'r clwb mewn unrhyw ffordd - rydym fel aelodau yn gwerthfawrogi hyn yn fawr.

Ar ddiwedd diwrnod o gystadlu brwd daeth y clwb yn seithfed-da iawn chi. Llongyfarchiadau i'r canlynol a ddaeth i'r brig -

1af Dawnsio disgo 1af Gethin Davies (cystadleuaeth ar y pryd) 3ydd Elin Williams ac Undeg Jones (Gwisgo arweinydd), 3ydd Gethin Davies a Morgan Lewis (cystadleuaeth ar y pryd) 3ydd Dafydd Jones a Daniel Jones (Barnu Defaid Duon Mynydd Iau) 4ydd Elan Jones (Can bop unigol) 5ed Elen Jones a Sion Evans (coginio). 5ed Elen Jones a Jessica Jones (Barnu Stoc Holstein Iau) 5ed TOW. Da iawn hefyd i bawb arall a fu'n cystadlu.

Pinacl y diwrnod oedd cael gwyllo Sian Elin Williams a gafodd ei dewis yn ddirprwy Llysgenhades y Sir eleni yn cael ei hurddo yn y seremoni ac yn edrych yn hynod o brydferth.

Mae'r clwb wedi cael hwdis coch newydd a diolch i Gwawr a'r criw am drefnu. Cafwyd noson o Hwyl a Sbri yn neuadd Sant Iago yn ddiweddar yn chwarae amryw o gemau ac yna cael cyfle i fwynhau pítsa. Edrychwn ymlaen yn awr at gael dathlu gyda'n gilydd yng nghinio blynyddol y clwb.

Pwyllgor Pentref Cwmann

Clwb 225 Mai 2018: 1. Alan Morgans, Haulfryn, Cwmann, 19. 2. Seren Ling, Glynbedw, Cwmann, 104. 3. Jeff Evans, Llys-y-coed, Cwmann, 63. 4. Eifion Davies, Rhoswelir, Parc-Y-Rhos, Cwmann, 14. 5. Von Abel, Neuadd-Deg, Cwmann, 12. 6. Iwan Griffiths, Pantfyd, Esgairdawe, 103. 7. Eifion Davies, Four Winds, Cwmann, 35.

Neuadd Sant Iago

Clwb 125 Mai 2018: 1. Huw Davies, Verland Cwmann, 95. 2. Timothy Evans, Llanfair Fawr,

Cwmann



Brenhines Carnifal Cwmann Charlotte Howell, y morwynion: Jazmine Carroll a Maxine Gregson, Brenhines y Rhosyn Lilybet Cousinne, y Macwyaid: Seb Gregson a Cai Wyn gyda'r llywydd Mr Lyn Thomas.



Enillwyr Carnifal Cwmann: Ilan Alfi, William Morris, Megan Thomas, Tudur Llwyd, Seren Ling, Gwenllian Llwyd, Annie Thomas a Megan Thomas.



Y beirniaid yn gwobrwyo'r fflôt orau yng Ngharnifal Cwmann.

Llanfair, 76. 3. Phillip Lodwick, Penrhyn, Cwmann, 138. 4. Ann Davies, Brynteify, Cwmann, 56. 5. Mary Jones, 41a Stryd Fawr, Llambled, 65. 6. Brian Lloyd, Blaenrhysglog, Farmers, 10. 7. Aneurun Jones, Hathren, Heol-y-Bont, Llambled, 144.

Ysbyty

Anfonwn ein dymuniadau gorau i Eiddig Jones, Gellidewi sydd yn yr ysbyty ers rhai wythnosau ac i unrhyw un arall sydd yn anhwylyd adref neu mewn ysbyty. Gwellhad buan i chi i gyd.

Pen-blwydd Arbennig

Dathlodd Mrs Ruthie Williams,

Penlon, Llambled [Rhiwlas gynt] ei phen-blwydd yn 90 oed. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r diwrnod.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Gareth ac Eirios, Coedeiddig a'u teuluoedd ar farwolaeth Mrs Ceinwen Russell - mam, mam-gu a hen fam-gu annwyl iawn.

Diolch

Dymuna Mrs Ruthie Williams, Penlon ddiolch i bawb am y cardiau a'r rhoddion caredig a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Diolch i chi gyd am eich caredigrwydd.



Bu Mari, Joshua a Casi o Ysgol Carreg Hirfaena yn rhedeg trawsgwlad Ceredigion.



Casi yn ennill rhedeg 100m.



Deina Evans gyda'i gwaith celf.

Ysgol Carreg Hirfaen

Llongyfarchiadau enfawr i dîm Trawsgwlad yr ysgol wrth iddynt gystadlu yng nghystadleuaeth Trawsgwlad Ceredigion yn ddiweddar. Rhedodd pawb yn wych a braf oedd gweld pawb yn rhedeg yn naturiol. Llongyfarchiadau i Casi Gregson (Blwyddyn 5) am gipio'r ail safle, Mari Evans (Blwyddyn 4) am gipio'r seithfed safle a Joshua Morris, Blwyddyn 3 hefyd yn cipio'r seithfed safle.

Ar ddiwedd mis Mawrth, cafodd holl blant yr Urdd gyfle i fynd ar daith i fowlio deg yng Nghaerfyrddin. Cawsom noson hyfryd a llawn hwyl a sbri. Fel rhan o'n gwaith ar y thema 'Natur' cafodd Blwyddyn 3 a 4 gyfle i fynd i'r Ardd Fotaneg. Dyma adroddiad Ifan Davies o flwyddyn 3.

'Ar fore dydd Gwener, Ebrill 27ain, fel rhan o'n gwaith thema, aethon i'r Ardd Fotaneg ger Caerfyrddin. Aethon ni yn syth i chwilio am greaduriaid yn y pyllau dŵr. Gwelsom benbyliaid, corynnod dŵr a llawer mwy. Wedyn aethon i'r tŷ gwydr i gael cinio a chawsom gyfle i gerdded o amgylch y tŷ gwydr. Gwelsom blanhigion gwahanol sydd yn tyfu o gwmpas y byd. Ar ôl cinio aethom i'r goedwig a gwelsom wahanol flodau a choed. Roedd dwy wahanol goedwig i gael yma, coedwig y tylwyth teg a choedwig y blodau. Dysgais lawer am fyd natur'.

Ym Myd Athletau, dymunwn longyfarch Casi Gregson ar ddod yn Bencampwraig Ras 100 metr ym Mhencampwriaeth Ysgolion Cynradd Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar. Bydd Casi yn awr yn mynd ymlaen i gystadlu ym Mhencampwriaeth Dyfed ym Mis Mehefin. Pob lwc iddi.

Llongyfarchiadau mawr i Deina o flwyddyn 2 am ennill y drydedd wobr mewn dwy gystadleuaeth yn Eisteddfod Gelf yr Urdd.

Ar ddydd Sadwrn, 12fed o Fai, aeth Joshua o flwyddyn 3 a Tudur, Ollie a Mari o flwyddyn 4 i gynrychioli'r ysgol yn Nhrawsgwlad

Cenedlaethol yr Urdd ar gaeau Blaendolau yn Aberystwyth. Rhedodd y pedwar yn arbennig o dda.

Cawsom amser hyfryd yn nhwrnamaint pêl droed a rownderi Cylch Llambled ar Fai 18fed. Braf oedd gweld pob plentyn o flwyddyn 3, 4, 5 a 6 yn cymryd rhan a chymysgu gyda phlant ysgolion y cylch.

Llongyfarchiadau i dîm rownderi blwyddyn 5 a 6 wrth iddynt ennill y gystadleuaeth ac i dîm pêl droed blwyddyn 3 a 4 am ddod yn ail yn eu cystadleuaeth nhw. Diolch yn fawr iawn i ysgol Bro Pedr (Campws Iau) am y croeso cynnes ac i Mr Wyn John am drefnu.

'Ar fore Dydd Llun 16eg o Ebrill aeth disgyblion blwyddyn 5 a 6 i wersylla yng Nglan llyn. Buom yna am 2 noson a chawsom lawer o hwyl a sbri. Gadawodd y bws am 9 y bore a chyrhaeddodd erbyn amser cinio. Ar ôl cinio blasus iawn, gwnaethom y cwrs rhaffau uchel a chanwio ar Lyn Tegid. Buom hefyd yn dringo'r wal ddringo a chawsom DVD cyn mynd i'r gwely. Erbyn hyn roedd pawb wedi blino'n lân ac yn barod i gysgu yn syth! Y bore canlynol, dihunodd pawb am 8 o'r gloch i sŵn y gloch ac aethom i gael brecwast o facwn ac wy. Wedyn, aethom i ddringo mynydd Afan, cyfeiriannu, adeiladu rafft a saethu gyda bwa a saeth. Gwlychodd nifer ohonom wrth geisio defnyddio'r rafft ar y llyn. Cawsom ddisgo arbennig y noson honno a buom ni i gyd yn gwneud y floss! Erbyn y diwrnod olaf, roedd pawb wedi blino'n lân ac yn barod i fynd adref. Ar ôl sicrhau bod popeth wedi cael eu pacio, cawsom frecwast hyfryd yn y neuadd fwyd. Aethom i hwylio ar y llyn, adeiladu tân a rhostio 'marshmallows'. Gwnes i fwynhau'r hwylio yn fawr iawn gan fy mod i wedi siglo'r cwch o un ochr i'r llall gan obeithio troi'r cwch. Cawsom amser anhygoel yng Nglan llyn a gobeithio caf fynd yn ôl flwyddyn nesaf. Fy hoff



Tîm buddugol rownderi Ysgol Carreg Hirfaen.



Tîm Ysgol Carreg Hirfaen yn ail yn nhwrnamaint pêl-droed y cylch.

weithgaredd oedd y cwrs rhaffau er ei fod yn ofnus. Diolch am y cyfle i gael mynd.'

Gan Brooke Lovell.

Cafodd disgyblion dosbarth Meithrin Mrs Jones ddiwrnod bendigedig ar ddydd Mawrth yr 22ain o Fai, wrth ymweld ag Anifeilfa, Borth ar gyfer eu taith addysgiadol. Gwelwyd lluo o anifeiliaid diddorol a phrif amcan y dydd oedd gweld aelodau o deulu'r cathod. Dyna oedd gwledd i weld tri lyncs, llew a llewes anhygoel. Dyna oedd diwrnod da.

'Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn gweithio ar ffilm fer am Gantre'r Gwaelod. Gwaith caled oedd paratoi'r ffilm yma er daethom i ben a chynhyrchu ffilm arbennig gyda

help Miss Wilkins, Miss Ffion a Mr Evans. Rhwng pawb aethom ati i gasglu gwybodaeth am Gantre'r Gwaelod, arlunio, animeiddio, chwilio am gerddoriaeth, golygu, ffilmio a defnyddio rhaglenni megis 'I can Animate' a 'I-movie' i wneud ffilm. Aethom i ddangos y ffilm yma yn ysgol Bro Pedr a chawsom 'Oscar' gan Miss Dafis am ein gwaith caled.

Gwnes i fwynhau gweithio ar y ffilm yma ac yn gobeithio cael cyfle eto i wneud rhywbeth yn debyg yn y dyfodol.'

Gan Dion Hughes

Cafodd plant dosbarthiadau Crwys a Hathren ddiwrnod hyfryd yn Fferm Ffoli. Buom yn ffodus iawn gyda'r tywydd, roedd yr haul yn gwenu drwy'r dydd. Roedd yn braf cael

Cwmann



Plant Ysgol Carreg Hirfaen yn yr Anifeilfa.

mynd yn agos at yr anifeiliaid rydym wedi bod yn dysgu amdanynt yn ystod ein thema 'Creaduriaid bach a mawr'. Roedd y plant yn hoff iawn o'r jiraffod, y pengwiniad a'r rhinoserosiaid.

Cafodd Blwyddyn 2 brynhawn wrth eu boddau yn cymryd rhan yn chwaraeon potes yr Urdd yn Ysgol Bro Pedr. Roedd yr haul ar ein cefnau wrth i ni gael hwyl yn symud o gwmpas y gweithgareddau amrywiol ac roedd y pop a'r creision yn dderbyniol iawn.

Penderfynodd aelodau'r Cyngor Ysgol gynnal diwrnod codi arian at elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Gwisgodd y disgyblion ddillad eu hunain i'r ysgol a chafwyd sêl gacennau lwyddiannus ar ddiwedd y dydd. Codwyd y cyfanswm arbennig o £464. Diolch yn fawr i bawb am gefnogi.

Dymunwn bob hapusrwydd i Miss Carys Wilkins a Rhydian ar ddiwrnod eu priodas ac i'r dyfodol.

Cynhelir Ffair Haf Ysgol Carreg Hirfaen eleni ar ddydd Gwener, Mehefin 22ain. Mae croeso cynnes yma i bawb – bydd y gweithgareddau yn cychwyn am 4pm.

Wyres fach

Llongyfarchiadau i Mrs Sian Jones, Bryndolau ar enedigaeth ei hwyres fach sef merch fach Geinor Medi a Jason, Heol-y-Gogledd, Llambod. Mae hefyd yn orwyr i Mrs Eluned Lewis, Tanlan. Llongyfarchiadau iddi hithau hefyd.

Sefydliad y Merched

Croesawodd y llywydd Elma bawb i gyfarfod mis Ebrill yn Festri Bethel. Diolchodd i bawb am gyfrannu ac am helpu ar noson y 'Group Meeting'. Aeth ymlaen i groesawu'r wraig wadd sef Liz Tipping sy'n aelod o glwb Sefydliad y Merched, Llanwenog ac yn un o'r aelodau ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Ei diddordeb yw gwahanol grefftau. Dangosodd i ni sut oedd gwneud 'peg loom' a 'lap loom'. Dywedodd mai ym Melin

Tregwynt y byddai yn prynu'r gwlân, gan fod ganddynt ddigon o ddewis. Diolchwyd iddi am noson ddiddorol iawn gan Bethan. Avril a Bethan oedd yng ngofal y te. Enillwyd y raffl gan Brenda. Dymunwyd yn dda i Liz Tipping gan ei bod yn symud i Sir Benfro.

Ymweld â La Calabria wnaethon ni yn ystod ein cyfarfod mis Mai a hynny ar nos Fawrth yr 8fed. Croesawyd ni yno gan Gwyneth. Yna aeth Tony ymlaen i ddweud sut oedd yn gwneud Hufen Iâ. Dywedodd bod y llaeth yn dod o'r fferm. Roedd y peiriant yn dal wyth deg litr o laeth. Mae'n pasteuriddio'r llaeth er mwyn cael difa'r bygiau ac mae'n broses sy'n cymryd rhyw awr a hanner. Ar ddiwedd y broses, caiff bedwar deg litr o hufen iâ allan ohono. Roedd ganddynt bob math o flas. Yn yr haf, byddant yn mynd i ambell sioe leol a charnifal. Gwnaeth sorbet mefus a chawsom ei flasau ar y diwedd. Roedd yn flasus dros ben. Soniodd eu bod wedi dechrau gwneud Hufen Iâ rhyw un ar ddeg mlynedd yn ôl.

Ar ôl pryd blasus yn y gwesty a phawb wedi mwynhau, cafwyd cyfarfod busnes.

Llywyddiant Eisteddfodol



Sara Elan Jones, Cwmann yn cipio'r wobwr gyntaf am lefaru dan 19 oed a'r trydydd am yr unawd offerynnol dan 19 oed yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid.

Cellan



Ifan Gwilym (mab Elin a Dafydd, Y Garn, Cwmann) a Sara Hedd wedi eu priodas yn Llanddodged, Llanrwst. Mae'r ddau yn byw a gweithio yng Nghaerdydd.



Yn Sioe a Charnifal Pumsaint a gynhaliwyd ar Ddiwrnod Calan Mai, enillwyd y wobwr am y cymeriad teledu gorau gan Beca Ebenezer o Gellan.

Merched y Wawr



Cynhaliwyd Gŵyl Fai Merched y Wawr Rhanbarth Ceredigion ar ddydd Sadwrn 12fed o Fai yn Neuadd Felinfach yng nghwmni'r wraig wadd Bronwen Morgan o Langeitho. Mynychodd tyrfa fawr yn cynnwys cystadleuwyr a chefnogwyr o bob cwr o'r Sir.

Enillwyr Cystadleuaeth Radi Thomas yn y categorïau Crefft oedd:- (I) Cannwyll 2D neu 3D - Janet Evans Cangen Beulah; (II) Eitem ddu a gwyn - Betty Evans, Talybont; (III) Montage neu Gollage - Ffasiwn i Ferched, Laura Lewis, Cylch Wyre; (IV) Eitem/eitemau o wllân neu yn cynnwys gwlân - Delyth Jones, Penrhyncoch.

Enillydd Cystadleuaeth Radi Thomas yn y coginio oedd Delyth Jenkins, Cangen Cylch Aeron. Yn y llun gweler hefyd Llywydd Pwyllgor Celf a Chrefft Morwen Thomas. Aeth Tarian Rhanbarth Ceredigion i'r Gangen â nifer uchaf o farciau yn y Cystadlaethau Rhanbarthol, i Gangen Rhydpennau. Yn y llun yn derbyn y Darian, mae Joyce Bowen, Brenda Jones, a Mair Davies.

O'r Cynghorau Bro



Cyngor Llanybydder

Mae'r cyngor yn bwriadu atgyweirio'r Gofgolofn yn Llanybydder ac wedi holi cwmnïau gwahanol am amcan bris.

Mae'r Clerc yn mynd i brynu paent coch er mwyn peintio'r blychau ffôn.

Drefach a Llanwenog



Taith Gerdded 2018 y plwyf, gyda dros 50 o bobl wedi ymuno eleni a £560 wedi ei godi at brynu offer i adran A&E Glangwili.

Y Gymdeithas Hŷn

Trefnwyd trip mis Mai gan Ann Walters (Brynhogfaen gynt), a hwnnw i ran ogleddol Sir Benfro, a chafwyd diwrnod arbennig yn ymweld â sawl lle diddorol. Arhoswyd gyntaf yn Nhafarn Ffynnone, Boncath am 'baned o de neu goffi, a chacennau cartre' wedi eu paratoi ar ein cyfer.

Siwrnai fer wedyn i ffatri wydr Cwmni 'Derw' ym Mhantyderi - busnes teuluol, ond sydd erbyn hyn yn cyflogi 82 o weithwyr. Cafwyd hanes sut y dechreuwyd y busnes 26 mlynedd yn ôl, a'r graddau gwahanol o wydr a gynhyrchir ganddynt. Gwelwyd enghreifftiau o'r pethau y gellid cael eu comisiynu - lluniau wedi eu rhoi mewn gwydr, ysgythriadau a theils ar gyfer waliau. Byddai modd lliwio rhain wedyn yn ôl dewis y cwsmer. Roeddent hefyd yn gwneud ffenestri plaen a gwydr ar gyfer drysau. Gwelir eu lorïau yn teithio i Lundain, Lerpwl, a Chernywn yn rheolaidd. Erbyn hyn maent hefyd wedi dechrau cynhyrchu lloriau cwarts mewn 30 o wahanol liwiau. Agoriad llygad yn wir!

Ymlaen wedyn i Gwm Gwaun, ac i dafarn y Dyffryn Arms, sy'n fwy adnabyddus fel 'Tafarn Bessie'. Daeth Lilwen McAlister atom i'r bws i roi hanes y cwm. Clywsom am Eglwys Sant Brynach sy'n dyddio nôl i'r 5ed ganrif, capel y Bedyddwyr a'r ysgol. Adroddodd hanes cadw'r Hen Galan a dywedwyd bod y plant yn dal i fynd o gwmpas yn casglu calennig. Yn hwyrach yn ystod y dydd, soniwyd am y wledd fawr ar gyfer y gymdogaeth. Yna daeth cyfle i fynd i mewn i'r dafarn a chael cwrdd â Bessie ei hun, sy'n 87 erbyn hyn ac wedi cadw'r dafarn ers 61 o flynyddoedd. Mae aelodau'r teulu'n ei helpu bellach.

Roedd Ann wedi trefnu lluniaeth ar ein cyfer yn Nhafarn Sinc. (Mae'n siŵr bod darllenwyr Clonc yn meddwl ein bod wedi cael 'Pub Crawl' ond trip reit ddirwestol oedd e!) Mae'r dafarn hon yn nwylo'r Gymuned ers mis Tachwedd y llynedd, ac yn ganolfan hwylus i'r

gymdogaeth, a gobeithio y gwnaiff barhau felly.

Nepell o'r Dafarn Sinc mae Fferm Pantmawr, sy'n cynhyrchu caws. Busnes teuluol eto, wedi ei sefydlu ers 35 mlynedd, yn gwneud saith math o gawsiau gwahanol - pump ohonynt o laeth y fuwch a'r ddau arall o laeth gafr. Cafwyd cyfle i flasgu pob un ohonynt cyn mynd i'r siop i brynu os dymunwyd gwneud.

Cychwyn am adre wedyn, ond cadw at y traddodiad o gael swper ar y ffordd. Cafwyd pryd arbennig unwaith eto yng Ngwesty Llwyngwair ger Trefdraeth. Diolchwyd yn gynnes iawn i Ann am yr holl drefniadau a wnaed gan Dilwen George, Cadeirydd y Gymdeithas. Er bod pawb wedi mwynhau, roedd yna gwmwl o dristwch dros y cyfan y diwrnod hwnnw ar ôl clywed am farwolaeth ddisymwth iawn Daniel Thomas, Ffosffald. Mynegodd Dilwen deimladau'r aelodau, gan estyn ein cydymdeimlad dwysaf â Mary, ein his-gadeirydd, a'r teulu cyfan.

Bydd y trip nesaf yn mynd i Sain Ffagan dydd Mercher, Mehefin 13eg.

Sefydliad y Merched

Daeth criw da i gyfarfod Mis Mai. Ar ôl trafod y busnes, roedd yn rhaid trefnu'r trip blyneddol. Y bwriad eleni yw treulio'r dydd yn Sain Ffagan. Diwrnod diddorol tu hwnt mae'n siŵr, ond bydd yn rhaid croesi bysedd am dywydd ffafriol!

Yn absenoldeb y siaradwr gwadd, trefnodd Kay sesiwn o 'crosio'. Cafwyd llawer o hwyl gyda phawb yn helpu ei gilydd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fehefin 7fed. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Cydnabyddiaeth

Dymuna Mary Thomas, Ffosffald, a'r merched, Meriel ac Eleri a'u teuluoedd, ddiolch yn ddiffuant am y cydymdeimlad, y blodau, cardiau a'r lluniaeth a dderbyniwyd pan gollwyd mor frawychus o sydyn - Daniel; gŵr, tad, tad-yng-nyfraith a thad-cu annwyl.

Gwerthfawrogi eich cefnogaeth amrhisiadwy yn ystod adeg mor drist ac annisgwyladwy.

Cydymdeimlo

Daeth tristwch dros ardal eang pan ddysgwyd am farwolaeth annisgwyl o sydyn Daniel Thomas, Ffosffald yn ystod mis Mai. Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Llanwenog a chydymdeimlwn yn ddwys gyda'i briod Mary, a'r merched Meriel ac Eleri a'u teuluoedd ar ôl iddynt golli gŵr, tad a thad-cu annwyl iawn.

Llwyddiant yn yr Urdd

Ymfalchiwn fel cymuned yn llwyddiant Noa Potter Jones, Llwyneclyn Mawr am iddo ddod yn 2il yn yr Unawd Bl 2 ac Iau. Llongyfarchiadau hefyd i Gôr Ysgol Dyffryn Cledlyn am ennill y gystadleuaeth i Gôr Ysgolion dan 150 o blant. Mae'n rhaid cofio nad yw'r ysgol wedi dathlu blwyddyn o fodolaeth eto. Tipyn o gamp!

Ysgol Dyffryn Cledlyn

Llongyfarchiadau calonnog i Gôr Ysgol Dyffryn Cledlyn am gipio'r wobr gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed 2018. Bu'r disgyblion yn brysur iawn yn ymarfer a diolch iddynt am eu gwaith caled a chyson. Dyma ein blwyddyn gyntaf yn Ysgol Dyffryn Cledlyn ac felly roedd hyn yn gampwaith a hanner! Diolch i Mrs Gwyneth Davies am gynorthwyo'n gyson a diolch enfawr i Miss Lois Williams am gyfeilio mor broffesiynol yn yr Eisteddfod Sir a'r Genedlaethol. Diolch i'r sawl fu'n gyfrifol am osod baneri ar giât yr ysgol er mwyn ein croesawu ni adref. Roedden ni fel staff yn browd iawn o'r disgyblion a diolch i bawb am eu geiriau caredig wedi'r fuddugoliaeth. Profiad bythgofiadwy ac anhygoel!

Llongyfarchiadau gwresog i Noa Potter Jones am ennill yr ail safle yng nghystadleuaeth Unawd Bl 2 ac Iau, Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed. Tipyn o gamp i fachgen bach dewr o'r dosbarth derbyn! Gwych Noa!

Kerbcraft - Yn ystod mis Mai, bu disgyblion blwyddyn 1 a 2 yn brysur yn dysgu sut i groesi'r heol yn ddiogel gan ymarfer yn y maes parcio! Daliwch ati blantos!

Llongyfarchiadau i Madi Potter, Steffan Jarman a Mari Rees am ennill y safle cyntaf mewn cystadlaethau Celf a Chrefft yn Eisteddfod yr Urdd Ceredigion a hefyd i Arthfael Edwards ac Elliw Grug am ennill y 3ydd safle. Enillodd Madi Potter y safle cyntaf hefyd mewn cystadleuaeth Gelf a Chrefft yn yr Eisteddfod Genedlaethol a Steffan Jarman y 3ydd safle. Llongyfarchiadau gwresog i chi i gyd.

Diolch i Mr Hywel Roderick a Mrs Wendy Davies am fynychu cwrs tridiau yng Nglan-llyn gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6 ar ddechrau mis Mai. Cawsant nifer o brofiadau gwahanol gan gynnwys canwio, dringo'n uchel, chwarae bowlïo 10 ac adeiladu rafft. Roedd y disgyblion wedi mwynhau mas draw.

Diolch yn fawr i Elen Morgan, Cadeirydd Cyngor yr Ysgol, am fynychu cyfarfod holi a thrafod gyda Dafydd Edwards, Comisiynydd Heddlu Dyfed Powys gan holi cwestiynau iddo am rai o bryderon yr ysgol!

Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion Dyffryn Cledlyn am wneud eu gorau glas yn y Profion Cenedlaethol yn ddiweddar! Da iawn chi.

Ar brynhawn y 7fed o Fai, cynhaliwyd Ras Gyntaf Ysgol Dyffryn Cledlyn yng nghanol heulwen braf. Hyfryd oedd gweld cymaint o bobl yr ardal yn cefnogi'r ras - yn redwyr ac yn aelodau o'r gymuned. Llywyddion y Dydd oedd Lyn ac Eileen Rees, Tanrhos. Cafwyd geiriau pwrpasol iawn ganddynt a diolch iddynt am eu haelioni. Braf oedd gweld eu hwyrion yn rhedeg! Rhieni a Staff Dyffryn Cledlyn oedd yn trefnu'r Ras a chafwyd tua 185 o gystadleuwyr - yn blant ac yn oedolion. Rhif calonogol iawn a llongyfarchiadau i fuddugwyr yr holl rasys. Diolch i Eleri Rivers am drefnu'r Ras, i Glwb Sarn Helen am

Drefach a Llanwenog



Cynghorwyr Cymuned a'r Clerc gyda thystysgrif gwobrau Un Llais Cymru yn derbyn 'Canmoliaeth Uchel' yng nghategori 'Menter Ymgysylltu Cymunedol Orau' am eu gwaith yn y gymuned.

gynorthwyo, i holl staff yr Ysgol am eu hymroddiad a'u gwaith caled ac wrth gwrs i'r rhieni am eu cefnogaeth ac am drefnu hefyd. Rhaid cofio bod y ras yn cael ei chynnal ar Ŵyl y Banc ac felly diolch o galon i'r staff a'r rhieni am roi eu hamser i ni. Roedd yna stondinau amrywiol gan gynnwys te a choffi, barbeciw, cacennau, treiffl a ffrwythau a'r elw yn mynd i Ysgol Dyffryn Cledlyn. Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth.

Rhoddodd Cyngor yr ysgol gyflwyniad i'r Llywodraethwyr gan roi diolch iddynt am eu holl waith ar hyd y flwyddyn. Anodd credu bod cymaint ar y rhestr gan gofio mai ers mis Medi maent yn weithredol. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd.

Yn dilyn ein thema tymor diwethaf a gwaith y Pwyllgor Eco, bu disgyblion blwyddyn 3- 6 yn ymweld â Chanolfan ailgylchu LAS. Cawsant fore buddiol yn gwyllo'r holl brosesau a diolch i LAS am gymryd amser i egluro a dangos y disgyblion o gwmpas!

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae disgyblion blwyddyn 6 wedi bod yn derbyn gwersi beicio yn yr ysgol a phob un yn mwynhau y profiad. Daliwch ati!

Bu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn gwyllo perfformiad cyntaf "Arad Goch" o "Na Nel" yn ddiweddar. Mwynhaodd pawb y profiad a braf oedd cael cyfle i sgwrsio gyda'r awdures ar ddiwedd y perfformiad.

Cafodd y staff gyfle yn ddiweddar i arbrofi gydag adnoddau newydd y Sir sef y 'Vr sets.' Profiad 3D yw hwn a chyfle i wyllo technoleg ar ei orau gan gynnwys nofio gyda siarcod. Edrychwn ymlaen i weld ymateb y disgyblion wrth iddynt ddefnyddio'r offer yn y dyfodol agos.

Braf oedd gweld disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn ymuno â disgyblion yr ardal yn ddiweddar am ddiwrnod o gemau Pêl droed a Rownderi. Profiad gwych iddynt a da iawn chi am gymryd rhan. Llongyfarchiadau i ddau tîm am gyrraedd y rownd derfynol. Er

mai colli oedd eu hanes, roeddent wedi mwynhau y diwrnod ac roedd yr awyrgylch yn hyfryd. Diolch i Ffiona a Wyn John am drefnu.

Bu disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn gweithio'n galed o dan arweiniad Mr Ebbsworth yn ddiweddar er mwyn cystadlu yng nghystadleuaeth 'Darllen dros Gymru'. Aeth y disgyblion ati i baratoi cyflwyniad allan o'r llyfr "Saith Selog" a buont hefyd yn trafod yn drwyadl gynnwys y llyfr "Na Nel." Bu'r disgyblion yn gweithio'n galed wrth ymarfer ac roeddent wedi mwynhau'r profiad mas draw. Diolch Mr Ebbsworth.

Bu holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ymweld ag Eglwys Llanwenog yn ystod y tymor er mwyn cynnal seremoni fedyddio yn yr Eglwys. Braf oedd gweld y disgyblion i gyd yn mwynhau'r gwasanaeth a diolch i Ficer Suzy am arwain y gwasanaethau. Roedd y disgyblion wedi mwynhau ymweld â'r Eglwys a dysgu am y fedyddfaen.

Diolch i PC Hannah am roi gwersi e ddiogelwch i ddisgyblion yr ysgol. Edrychwn ymlaen i'w chroesawu nôl yn ystod y tymor yma.

Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn cymryd rhan yn "Oscars" Bro Pedr yn ddiweddar. Roedd hwn yn gyfle i ysgolion lleol greu 'ffilm fer' yn seiliedig ar chwedl er mwyn eu harddangos mewn seremoni arbennig rhwng yr ysgolion. Dangoswyd ffilm "Eco Ysgolion" gan Ysgol Dyffryn Cledlyn. Crëwyd y ffilm hon gan ddisgyblion yr ysgol yn sgil y prosiect Ysgolion Creadigol arweiniol. Yn ystod y prynhawn, bu'r disgyblion yn chwarae gemau ac roedd pawb wedi blino'n lân erbyn iddynt ddod nôl i'r ysgol. Diolch yn fawr iawn Ysgol Bro Pedr.

Diolch i Urdd Ceredigion am drefnu prynhawn difyr o weithgareddau Potes i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Bro Pedr. Bu'r disgyblion derbyn hefyd yn chwarae Gemau Potes yn yr ysgol. Da iawn chi i gyd.

Cofiwch ddilyn yr Ysgol ar drydar @dyffryncledlyn

O San Steffan gan Ben Lake AS



Edrych yn ôl a 'mlaen

"A week is a long time in politics" – dyna y bu dywediad enwog Harold Wilson. Fodd bynnag, â blwyddyn bellach wedi pasio ers i mi gael fy ethol yn Aelod Seneddol dros Geredigion, mae'n rhaid i mi anghytuno gyda'r cyn-Brif Weinidog – mae'r wythnosau a'r misoedd ers y noson fythgofiadwy honno yn Aberaeron ar Fehefin yr 8fed 2017, wedi hedfan.

Ac am flwyddyn y mae hi wedi bod! O droedio o sioe i sioe dros yr haf, i gymorthfeydd wythnosol ymhob cwr o'r sir odidog hon, i ofyn fy nghwestiwn cyntaf i'r Prif Weinidog fis diwethaf. Yn sicr, does dim un diwrnod nac wythnos yn ddiflas - er rhaid cyfadde' bod coridorau di-bendraw San Steffan yn dal i fy nrysu hyd yn oed flwyddyn yn ddiweddarach!

Rwy'n falch o'r hyn rwyf wedi ei gyflawni dros Geredigion ers cael fy ethol. Rwyf wedi blaenoriaethu'r materion sy'n effeithio ar ein cymunedau o ddydd i ddydd – o gysylltedd digidol, i fancio gwledig, i ddiogelu gwasanaethau hollbwysig, megis bad achub Cei Newydd. Fodd bynnag, daw'r pleser mwyaf bob tro o fedru helpu unigolion – p'unai wrth eu helpu i gael triniaeth angenrheidiol, ad-daliad dyledus, neu yn fwy na dim - chwarae teg haeddiannol.

Er hynny, does fawr le i ramantu ormod am y flwyddyn a fu chwaith, gyda phethau'n debygol o boethi yn San Steffan dros y misoedd nesaf. Gyda thrafodaethau Brexit yn prysur gyrraedd penllanw, byddaf yn parhau i ymladd am y fargen orau dros Geredigion a thros Gymru.

Gallai fod yn gyfnod cythryblus yma yng Ngheredigion hefyd. Gyda'r Bwrdd Iechyd yn edrych i ddiwygio eu darpariaeth iechyd yng Ngheredigion, Sir Gâr a Sir Benfro, byddaf yn parhau i ymladd ochr yn ochr ag Elin Jones AC i sicrhau na fydd trigolion y sir ar eu colled yn sgil unrhyw newidiadau posib. Rwyf hefyd yn wylidwrs i newidiadau posib i'r gyfundrefn fudd-daliadau a ddaw yn sgil cyflwyno Credyd Cynhwysio – gallai'r gyfundrefn effeithio ar yr unigolion mwyaf bregus yn ein cymdeithas.

Hoffwn ddiolch o galon i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfeillgarwch dros y flwyddyn ddiwethaf - ac edrychaf ymlaen at glonc gyda nifer ohonoch mewn sioe, gŵyl neu ddathliad dros yr haf. Yn y cyfamser, os gallaf fod o unrhyw gymorth, mae croeso i chi gysylltu â mi ar e-bost ben.lake.mp@parliament.uk neu drwy ffonio'r swyddfa ar 01570 940 333.



ARWYN VOB
ACCOUNTANCY LTD.

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

❖ Cyfrifon Blynnyddol ac Interim

❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau

❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW

❖ Cyflogau a CIS

❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu

ebost arwyn@avaccountancy.cymru

Llanbedr Pont Steffan



Etholwyd y Cynghorydd Hag Harries yn Gadeirydd Cyngor Sir Ceredigion yn ystod y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar Ddydd Gwener, Mai 18fed, 2018. Llongyfarchiadau i chi Hag a phob lwc yn eich swydd newydd.

Y Gymdeithas Hanes

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mai yn Hen Neuadd, Coleg Prifysgol y Drindod Dewi Sant. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y gymdeithas bu'n llanw rhan gyntaf y noson. Rhoddodd y Cadeirydd, Selwyn Walters, adroddiad ffafriol am y flwyddyn; nifer ardderchog o aelodau, a rhaglen o siaradwyr diddorol ar amrywiol destunau. Felly hefyd adroddiad y Trysorydd, Phillip Lodwick, sydd yn camu o'r swydd. Diolchwyd iddo am ei flynyddoedd o waith gan y cadeirydd.

Ni ddaeth unrhyw enwebiadau ar gyfer y swyddi, felly ail-etholwyd Swyddogion a Phwyllgor y llynedd ar wahân i'r Trysorydd. Rhiannon Evans o gwmni Aur Cymru Tregaron oedd siaradwraig wadd y noson, a rhoddodd hanes y busnes sydd erbyn hyn wedi bod mewn bodolaeth ers dros 40 mlynedd. Esboniodd sut y dechreuodd fel Canolfan Grefftai, ac yna'r cyfnodau'n arwain at fod yn Ganolfan Aur Cymru, a'r gemwaith arbennig a gynhyrchir ganddi. Dangoswyd lluniau gan ddangos gwahanol ddarnau yn cyfleu chwedlau'r Mabinogi a hen hanes y Cymry, ac enghreifftiau o waith unigryw a gomisiynwyd. Mae busnes Rhiannon yn ganolbwynt arbennig ar Sgwâr Tregaron, gan ddenu pobol o bedwar ban byd erbyn hyn. Diolchwyd yn gynnes i Rhiannon gan y Cadeirydd, a chafwyd nifer o gwestiynau o'r llawr yn dilyn. Hwn oedd cyfarfod olaf tymor 2017-18, ar wahân i'r trip blynyddol ar Ddydd Llun, Mehefin 18fed. Bydd y diwrnod yng ngofal y Cadeirydd, Selwyn Walters.

Urddo Ysgrifennydd a Thrysorydd Noddfa yn Faer a Dirprwy-Faer

Roedd penwythnos Gŵyl Banc Mai yn un i'w gofio i Mrs Ann Bowen Morgan, un o aelodau ffyddlon Noddfa oherwydd ar y nos Wener fe'i hetholwyd yn Faer tref Llanbedr Pont Steffan mewn seremoni bwysig yng Ngholeg

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Hefyd penodwyd Rob Phillips, trysorydd gweithgar Noddfa fel Diprwy-Faer. Consort y Maer bydd ei phriod Densil. Mae Ann a Rob nid yn unig yn weithgar iawn yn Noddfa ond hefyd yn y gymuned. Diolch i Dduw amdanynt.

Offrymwyd gweddi agoriadol gan y Parchedig Jill Tomos, Caplan y Maer. Cyflwynodd Ann anerchiad gwych gan ddiolch i'r Cyngor am yr anrhydedd o gael bod yn Faer ac addawodd i wneud ei gorau dros y dref yn ystod y flwyddyn. Daeth y seremoni i ben wrth i ni wrando ar unawd hyfryd gan Mrs Carys Lewis a Miss Lois Williams yn cyfeilio ac yna ymunodd pawb i ganu'r Anthem Genedlaethol i gyfeiliant Delyth Morgans Phillips. Cyn troi tuag adre cafwyd cyfle i gymdeithasu wrth fwynhau bwffe ardderchog.

Ar y Sul canlynol, braf oedd gweld cynulliad teilwng wedi dod ynghyd i addoli Duw yn Oedfa'r Maer yn Noddfa. Wedi tipyn o grafu pen yn ystod yr wythnosau diwethaf, daethom i'r casgliad bod Oedfa'r Maer wedi ei chynnal yn Noddfa flynyddoedd maith yn ôl ym 1976 pan ddaeth y diweddar Glyn Jones Sawmills, neu'r Llew Du yn Faer ac yn aelod yng Nghaersalem. Ar ôl cyfnod mor hir, mae'n anodd credu y cynhaliwyd un yn Noddfa ddwy flynedd yn olynol! Pwy fydd y trydydd tybed?

Ar ran swyddogion ac aelodau'r eglwys croesawyd pawb, yn gynrychiolwyr etholedig, yn gynrychiolwyr sefydliadau a chymdeithasau'r dref a'r cyffiniau, yn gyfeillion ac aelodau'r eglwysi i'r Oedfa arbennig hon gan ein Gweinidog y Parchedig Jill Tomos. Soniodd mai braint enfawr oedd croesawu pawb a'n bod yn ymhyfrydu bod Cyngor tref Llanbedr wedi ethol un o aelodau gweithgar Noddfa yn Faer sef Mrs Ann Bowen Morgan sydd yn ddiagon ac yn ysgrifennydd ymroddgar gyda ni.

Cyhoeddwyd yr emynau gan Rob, Janet a John, bu'r Maer yn darllen



Maer newydd Llanbedr sef y Cynghorydd Ann Bowen Morgan a'i chymar yr Athro Densil Morgan. Cynhaliwyd seremoni apwyntio'r maer yn yr Hen Neuadd, Prifysgol Drindod Dewi Sant, Llanbedr ar nos Wener, Mai 4ydd.

rhan o'r Gair ac offrymwyd gweddi gan ei phriod Densil. Hefyd pleser oedd gwrandao ar ddatganiad swynol gan Elan o'r emyn 'Gweddi'r Arglwydd' o waith Eric Jones a Delyth yn cyfeilio. Cyfoethogwyd yr oedfa yn fawr gan neges amserol ein Gweinidog yn seiliedig ar adnodaau allan o'r Bregeth ar y Mynydd. Diolchodd Alun i'r Gweinidog am ei chyfraniad gwerthfawr, i'r aelodau oedd wedi cymryd rhan, i Llinos am ei gwasanaeth wrth yr organ ac i bawb oedd wedi dod ynghyd. Cyn canu'r emyn olaf, cyflwynwyd tusw o flodau i Ann gan ein Gweinidog ar ran yr aelodau gan ei llongyfarch yn galonnog a dymuno'n dda iddi yn ystod y flwyddyn. Tystiai pawb mai da oedd bod yn bresennol mewn oedfa llawn bendithion.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Diolch

Dymuna Sheila, Julie, Melanie a'r teulu Elisha, Heol Maestir ddiolch yn gynnes i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth o golli Ellis sef gŵr, tad a thad-cu annwyl iawn. Diolch hefyd am y cyfraniadau hael tuag at glefyd Parkinsons. Gwerthfawrogi eich caredigrwydd yn fawr. Diolch o galon i chi gyd.

Grŵp Trafod Amaethyddol

I gloi rhaglen y tymor, croesawodd y Cadeirydd, Aneurin Davies, Vivian Lloyd atom i sôn am beiriannau godro DeLaval. Mae'r cwmni mewn bodolaeth ers 130 o flynyddoedd a chafodd y peiriant godro rotari cyntaf ei greu yn y 1930au. Maent yn darparu systemau 'herringbone', rotary a VMS. Mae eu Pencadlys yn Sweden ac mae ganddynt fferm odro yno gyda 250 o wartheg a 210 o stoc ifanc. Maent erbyn hyn yn gwasanaethu tua 100 o wledydd ac mae'r cwmni'n cael ei reoli gan

TetraPak. Cafodd Mr Lloyd gymorth gan Scott a Sam i gyflwyno'r wybodaeth am y cwmni hyd at ddatblygiadau diweddaraf VMS. Cafwyd sesiwn o gwestiynau ar ôl y cyflwyniad ac rwy'n siŵr ein bod ni i gyd yn ddiolchgar iawn i aelodau'r teulu am eu haelioni drwy roi diod a phryd o fwyd i bawb oedd yn bresennol. Talwyd y diolchiadau gan Gareth Jones, Cilerwisg gan nodi fod y teulu'n gefnogol iawn i'w cwsmeriaid ac yn barod eu cymorth ddydd a nos. Diweddglo teilwng iawn i dymor dathlu'r Grŵp yn ddeugain oed. Pob dymuniad da i'r Grŵp Trafod i'r dyfodol.

Trydydd Penwythnos Dartiau

Dros Benwythnos Gŵyl y Banc, gwnaeth tîm cwmni hybu Dartiau sydd yn dod o Llanbedr, 'Bishop of Bedlam Promotions', gynnal eu trydydd penwythnos dartiau yng Nghlwb Rygbi Llanbedr.

Eleni, daeth Pencampwr y Byd deirgwaith, 'Wolfie' Martin Adams, i'r dre i chwarae'n fedrus yn erbyn chwaraewyr o'r dre ac i ffrwdd. Gwnaeth ddiddori pawb a ddaeth i wyllo gyda'i sgiliau celfydd a'i gyfoeth o storïau.

Hefyd yn Llanbedr am y Penwythnos Dartiau oedd y Band Pibau o Jedburgh yn yr Alban. Gwnaethon nhw ddiddanu pawb a ddaeth i wyllo'r Dartiau, y gêm rygbi yn erbyn Penybanc a hefyd y trigolion o gwmpas y dre ar y Sadwrn.

Ar y Dydd Sadwrn cynhaliwyd cystadleuaeth Dartiau Agored Llanbedr yn y clwb a gwnaeth 54 gymryd rhan. Mike Rowlands o Langybi oedd yn fuddugol yn herio Tony Bradley o'r Cymoedd yn y rownd derfynol, 6 i 5.

Dymuna'r tîm 'Bishop of Bedlam' ddiolch i noddwyr y Penwythnos - Richard Jarman, True Potential Wealth Management; Philip Jones, Financial Solutions; Jim Hussell, Y Sioe Roc; Y Stiwdio Brint; Davies & Jenkins Fencing Contractors; Siop Dartiau 'Love The Darts'; Clwb

Llanbedr Pont Steffan



Swyddogion Clwb Bowlio Llanbedr ar y noson agoriadol: Melanie Thomas, Cadeirydd; Emyr Thomas, Capten yr Ail Dîm; Anita Williams, Ysgrifennydd; Emyr Thomas, Capten; Sue Jones, Capten Menywod; Bethan Lewis, Trysorydd; Hag Harries, Maer, Eiry Morgan, Dave Crimes, Llywydd.



Dros Penwythnos Dartiau Llanbedr gwnaeth y Bois o'r Bishop's hel arian i 'Prostate Cancer UK'. Gwnaethon nhw godi tua £2,000 dros yr ŵyl ddartiau gan ddod â'r cyfanswm ar gyfer yr elusen dros y ddwy flynedd ddiwethaf i dros £10,000.



Roedd 13 – 19 Mai yn wythnos Cymorth Cristnogol ledled y wlad ac yn Llanbedr a'r ardal fe fu'n wythnos lwyddiannus dros ben. Roedd criw gweithgar, fel arfer, yn gyfrifol am y gwaith casglu o ddrws i ddrws a chapeli ac eglwysi'r ardal yn gefnogol iawn. Diolch i aelodau Brondeifi am drefnu Brecwast Bendigedig eleni 'to a llwyddo i godi £1,000.

Nos Iau, Mai 17eg cynhaliwyd y gwasanaeth blynyddol, yn St. Thomas eleni, gyda chynulleidfâ arbennig o dda yn gwrandao ar annerchiad gan Tom Davies, Cydlynedd Rhanbarthol Cymorth Cristnogol. Rhoddodd ddarlun clir iawn o waith yr elusen sy'n mynd i'r afael â thlodi ac anghyfiawnder mewn sawl rhan o'r byd. Cafwyd darlenniadau a gweddïau yn Gymraeg a Saesneg ac unawd gofiadwy gan Kees Huysmans. Bydd ei ddehongliad o 'Hawl i Fyw' Dafydd Iwan yn aros yn y cof.

Rygbi Llanbedr; Cegin Gwenog a Pies R Us o Kelso. Diolch yn fawr hefyd i Martin a John Fowler am y Dartiau, Band Pibau Jedburgh am yr adloniant dros yr ŵyl a Tracy a Danny o elusen 'Prostate Cancer UK'.

Bydd yr Ŵyl Ddartiau nesaf ym Mis Mai 2019 gyda Tony O'Shea a Darryl Fitton yn dod nôl i Llanbedr a ddiddanu pawb.

Y Bedyddwyr


Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan ar brynhawn hyfryd o Fai yng Nghapel Salem. Llywyddwyd yn fedrus gan Siân Roberts Jones o Gaersalem ac estynnodd groeso cynnes i bawb oedd wedi dod ynghyd i ganu mawl i Dduw.

Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Elin Lloyd Williams a Carys Thomas, Salem. Er bod mwyafrif o'r plant, oedd wedi eu paratoi gan Janet, yn ifanc iawn, roedd pob un

ohonynt wrth eu bodd yn canu a chyhoeddi'r emynau. Mwynhawyd gwledd yn eu cwmni dan arweiniad Emyr Davies a phob un yn ymateb yn dda i'w gyfarwyddiadau. Roedd gweld eu brwdfrydedd wrth ganu Cristion bychan yn codi gwên. Cyfoethogwyd y Gymanfa yn fawr gan unawdau swynol Elan Jones a Lisa Evans o Noddfa i gyfeiliant Alwena.

Hefyd yn ystod y prynhawn cafodd y plant llawer o bleser yn gwrandao ar y Llywydd yn cyflwyno stori ddiddorol yn cynnwys neges bwysig i bawb. Er nad oedd rhif yr oedolion, yn enwedig y dynion, yn niferus iawn, roedd yr arweinydd yn uchel iawn ei ganmoliaeth o'r canu. Mae Emyr yn arwain mewn ffordd mor gartrefol a di-ffws. Mae ein dyled yn fawr iddo am arwain ein rhyrsals ers dros 30 mlynedd.

Ar ddiwedd y prynhawn diolchodd y Llywydd i Emyr am ei wasanaeth clodwiw, i Elfyn am ei gyfraniad



Nos Iau, Mai 10fed lansiwyd llyfr Hunangofiant John Phillips 'Agor Cloriau: Atgofion Addysgwr' yng Nghapel Shiloh, Llanbedr gyda'r capel yn llawn. Mae'r awdur yn gymeriad arbennig ac yn adnabyddus i nifer fawr dros ardal eang, yn un o arloeswyr addysg drwy'r Gymraeg yng ngorllewin Cymru. Fel Cyfarwyddwr Addysg a Phrif Weithredwr Dyfed, mae'r atgofion yn tystio i'r newidiadau mawr sydd wedi digwydd dros y degawdau diwethaf. Yn y llun mae Garmon Gruffudd o Wasg y Lolfa yn cyflwyno'r copi cyntaf i'r awdur. Gyda nhw mae'r Parch Goronwy Evans, arweinydd y noson.

amhriiadwy wrth yr organ, i'r rhai oedd wedi cymryd rhan, i swyddogion ac aelodau Salem am eu croeso a'r te ardderchog oedd yn ein disgwyl, i Janet am ei threfniadau trylwyr ac i bawb oedd wedi dod ynghyd. Diolchodd Emyr am yr anrhydedd o gael arwain a thalodd deyrnged uchel i'r plant a'r oedolion am eu canu bendigedig, i Elfyn am ei gymorth mawr ac i Eiry Jones am arwain rhyrsal yr oedolion. Daeth prynhawn hyfryd i ben wrth i bawb gymdeithasu o amgylch y byrddau oedd yn llawn danteithion o bob math. Traddodwyd y fendith gan y Parchedig Jill Tomos.

Adran ac Aelwyd yr Urdd

Mae aelodau'r Aelwyd a'r Adran yn edrych ymlaen at ganu dan arweiniad Rhiannon Lewis a Lois Williams yn cyfeilio mewn Noson Lawen bydd yn cael ei recordio yng Nghanolfan Hamdden y dref nos Wener, Mehefin 15fed. Os am docynnau, plis cysylltwch â Janet neu Llinos. Y pris yw £5 a bydd yr elw yn mynd tuag at waith yr Adran a'r Aelwyd.

Brondeifi

Ddiwedd Ebrill yng Nghapel Alltlyblaca, cynhaliwyd y Gymanfa Ganu Undodaidd. Llywydd y nos oedd Mrs Margaret Jones, Glanhelen, Heol y Gogledd, Llanbedr. Ers hynny mae Margaret wedi bod yn cael llawdriniaeth yn Ysbyty'r Brifysgol Caerdydd. Rydym fel aelodau yn meddwl amdani a dymuno adferiad llwyr a buan iddi.

Ar Sul y 29ain o Ebrill cynhaliwyd Cyrddau Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru ym Mrondeifi. Bu ieuencid y capel yn cymryd rhan, a chafwyd annerchiad gan y gweinidog, y Parch Alun Wyn Dafis.

Ar y 10fed o Fai cafodd y Parch Goronwy Evans y fraint o lywio lansiad llyfr cyn-gyfarwyddwr Addysg Dyfed, Mr John Phillips, 'Agor Cloriau'. Roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus tu hwnt a bu Siop y Smotyn Du yn gwerthu copïau o'r llyfr yn y lansiad, a darparodd un o aelodau Brondeifi, Mrs Delyth Jones, wledd i ddilyn, yn ôl ei harfer.

Ar Sul y 6ed o Fai y Parch

Llanbedr Pont Steffan



Tîm rygbi Adran Llanbedr yn ennill cystadleuaeth Genedlaethol yr Urdd i adrannau.



Tîm pêl-droed Adran Llanbedr yn ennill cystadleuaeth Genedlaethol yr Urdd i adrannau.



Tîm pêl droed o dan 8 oed Llanbedr yn nhwrmaint Llanybydder. Er i'r bechgyn gyrraedd y rownd derfynol, colli oedd eu hanes o 1-0 ar ôl gêm agos iawn. Llongyfarchiadau am ddod yn ail fechgyn. Diolch yn fawr i Nerys Morris a Paul Jones am hyfforddi'r tîm.

Goronwy Evans oedd yn y pulpud, a'i bregeth wedi ei selio ar thema 'Y Ras Gyfnewid' - a'r baton yn cael ei drosglwyddo o weinidog i weinidog yn hanes cyfoethog y capel. Ar y 13 eg o Fai, Ysgrifennydd yr enwad, Mrs Melda Grantham gymerodd y gwasanaeth. Yna ar y 27ain, y gweinidog, y Parch Alun Wyn Dafis oedd 'nôl wrth yr awenau. Ar ddydd Sul y 3ydd o Fehefin, tro Ioan Wyn Evans fydd hi i wneud anerchiad, a'r Sul canlynol - y 10fed - bydd Cymundeb yng ngofal y Parch Alun Wyn Dafis.

Ar brynhawn y 13eg o Fai, roedd y Parch Alun Wyn Dafis yn cymryd ei wasanaeth cynta' yng nghapel hanesyddol Soar Y Mynydd, ger Tregaron. Aeth rhai o aelodau Brondeifi yno i'w gefnogi, a phawb yn mwynhau diwrnod cofiadwy mewn lleoliad arbennig.

Ar fore Mercher yr 16eg o Fai, cynhaliwyd Brecwast Mawr Brondeifi. Daeth torf dda ynghyd eleni eto ar gyfer digwyddiad poblogaidd iawn. Casglwyd dros £1,100 i Gymorth Cristnogol wrth



Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl droed Dan 12 Llanbedr ar gyrraedd y rownd derfynol yn nhwrmaint Llanybydder yn ddiweddar! Gwnaethant golli allan ar giciau o'r smotyn!

i'r gweinidog ac aelodau goginio brecwast, gydag ieuenctid y capel yn gweini'r byrddau. Bore llwyddiannus tu hwnt a phawb yn gadael a'u boliau'n llawn a gwên ar eu hwynebau!

Yn yr un wythnos, fe fu Mrs Mary Jones yn cynrychioli Brondeifi yn y gwasanaeth undebol yng Nghapel Wesle. Cafwyd anerchiad gan Tom Defis o Gymorth Cristnogol.

Ar benwythnos y 19eg a'r 20fed o Fai aeth llond bws o aelodau Brondeifi a'u ffrindiau i Rydychen. Roedd yn benwythnos i'w chofio, ac ar y bore Sul fe wnaeth y criw ymuno gydag aelodau'r Capel Undodaidd lleol i fwynhau oedfa arbennig.

Ar yr 20fed o Fai bu farw Mrs Ceinwen Russell, Coedeiddig, Cwmann yn 92 oed. Merch y filltir sgwâr oedd Mrs Russell. Am ddegawdau lu bu'n aelod hynod ffyddlon yn Mrondeifi. Roedd yn wraig garedig a chymwynasgar, yn gadarn ei hegwyddorion a mawr ei pharch. Ar y 24ain o Fai cafodd ei chladdu ym Mrondeifi. Talwyd teyrnged iddi gan ei chyn-weinidog, y Parch Goronwy Evans, oedd yn ei nabod ers dros 50 mlynedd. Yn gwasanaethu hefyd roedd y Parch

Alun Wyn Dafis a'r Parch Eileen Davies. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'r teulu yn eu colled.

Merched y Wawr

Croesawyd pawb gan Morfudd a Gwynfil ein hysgrifenyddion gweithgar. Canwyd Cân y Mudiad a'r cyfeilydd oedd Mrs Jane Hughes. Dechreuwyd y Cyfarfod Blynnyddol gyda'r adloniant a chyflwynodd Morfudd y tri ifanc i'n diddori sef y Triawd Williams o Dregaron:- Elin - 10 oed, Ifan- 9 oed a Mari-7 oed. Cafwyd cyflwyniad hyfryd gan Elin ac yna cyflwynodd y ddau arall eu hunain. Roedd talentau amrywiol gan y tri. Cafwyd amrywiaeth o eitemau ganddynt o driawdau fel 'Cân Hosanna', 'Ding Dong' a 'Moliannwn' i unawdau fel 'Seren Wen' ac 'Ymunwch yn y symffoni' ac adroddiadau fel 'Dai' gan Ifan. Cawsom ein difyrnu'n fawr ganddynt. Dysgwyd y plant gan Mrs Jane Hughes a oedd hefyd yn cyfeilio iddynt. Gwnaeth Elin lawer o'r gwaith cyflwyno ond hefyd cymerodd Mari ac Ifan eu tro yn annwyl iawn.

Diolchodd Morfudd i'r plant talentog a diolchwyd yn swyddogol gan Noleen. Diolchodd iddynt am ddod atom gan ddweud y byddai'r noson yn aros yn y cof am oes. Diolchodd hefyd i Mrs Jane Hughes am gyfeilio iddynt a'u hyfforddi. Cafwyd pleidlais ar gyfer pwyllgor flwyddyn nesaf a'r pwyllgor newydd fydd: Elin Williams - Llywydd; Mary Davies- Is-ysgrifennydd; Elma Phillips- Is-drysorydd; Aerwen Griffiths, Eryl Jones, Elsi Jones, Gillian Jones, Lyn Jones, Verina Roberts, Dorothy James.

Llongyfarchwyd Eryl a Pat am ddod yn ail yn y cystadlaethau dominos yng Ngheredigion a dymunwyd yn dda i Pat ac Elma yn yr Ŵyl Fai ym Machynlleth. Llongyfarchwyd a dymunwyd yn dda i Ann ar ddod yn Faer Llanbedr ac i'n cangen am ddod yn drydydd yn y Genedlaethol am raglen y flwyddyn. Cyhoeddwyd bod Penwythnos Merched y Wawr yn Llanbedr o Fedi 7-9. Mis nesa ceir

y trip dirgel blynnyddol ar ddydd Mercher 13eg Mehefin. Bydd yn cychwyn o'r Rookery am 1.15y.p.

Adran Llanbedr

Cafwyd noson llawn hwyl a sbri yng nghwmni Meriel o Swyddfa'r Urdd a bu'r aelodau yn mwynhau ymarfer eu sgiliau syrcais. Diolch i Meriel am ddod atom. Cafodd yr adran lwyddiant ysgubol yng nghystadlaethau Cenedlaethol rygbi tag a pêl-droed i adrannau. Wedi diwrnod o gystadlu brwd, daeth y ddau dîm yn fuddugol - tipyn o gamp yn wir. Llongyfarchiadau mawr i'r aelodau ar eu llwyddiant a diolch o galon i Dyfed Lloyd Jones am hyfforddi'r tîm pêl-droed ac i John Mc Donagh a'r criw o dadau am hyfforddi'r rygbi. Gwnaeth Mrs A Jones baratoi helpa drysor i'r aelodau o gwmpas tir yr ysgol a chafwyd orig ddifyr yn datrys y cliwiau cyn mynd ati i fwynhau danteithion blasus. Llongyfarchiadau i Lucy, Betrws ac Alwena am ennill yr helpa drysor a diolch i Mrs Jones am baratoi. Pob hwyl i holl aelodau'r adran a'r aelwyd sydd yn cystadlu yn y Genedlaethol. Bydd aelodau'r adran a'r aelwyd yn canu ar raglen Noson Lawen sydd yn cael ei ffilmio yn y Ganolfan Hamdden yn Llanbedr ar Fehefin 15fed. Os ydych eisiau tocyn i'r Noson Lawen, yna cysylltwch â Llinos neu Janet.

Priodas Arian

Llongyfarchiadau mawr i Dorian a Rhian Glennydd, Stryd Newydd ar ddathlu eu Priodas Arian ddiwedd mis diwethaf. Cariad mawr oddi wrth Lowri a Tomos. Dymuniadau gorau wrth y teulu i gyd.

Pwyllgor Gŵyl Dewi

Cofiwch ddod i noson Bryn Fôn a'r band a Beth Celyn yn Neuadd Fictoria, Heol y Bryn ar nos Sadwrn Mehefin 16 am 7.30 yh. Bydd elw'r noson yn mynd i Bwyllgor Gŵyl Dewi ar gyfer Gorymdaith 2019. Tocynnau ar gael yn Siop y Smotyn Du, Ysgol Bro Pedr neu Cered.

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofgolofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
ac yn golchi *duvets*.
Sychlanhau ar y safle.



Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- ★ Pherifferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776
neu 07715 740777
www.tynici.com

graham@tynici.com



T: 01570 423884 S: 07900 370537
e.dawnsemporium@gmail.com f.dawnswelshgifts

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambed
Ffôn: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Tai Bwyta / Siopau

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401
E-bost: carol@ejic.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig
gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Pencarreg

Dymuniadau Gorau

Yn dilyn salwch hir, hoffwn
ddymuno iechyd gwell, gyda
dyfodiad y tywydd braf, i Herbert
Morgans, Fferm Rhydowen,
Pencarreg. Pob dymuniad da
Herbert.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau gwresog i
Dafydd a Rachael Thomas, Dolwar-
Fach, Pencarreg ar enedigaeth eu
mab bychan, Quinn Morgan John
Thomas ar yr 21ain o fis Mawrth.
Brawd bach cyntaf i Annie a Megan
ac aelod newydd i deulu Dolgwm
Uchaf.

Celf Eisteddfod yr Urdd

Hoffem longyfarch Meleri Mair
Thomas, Dolgwm Uchaf, athrawes
gelf Academi Portlethen, Aberdeen
ar lwyddiant eu disgyblion yn yr
adran Gelf yn Llanelwedd.

Cystadleuaeth 179 – Gwaith
Lluniadu 2D Bl. 7, 8 a 9 – Aidan
Gibb 1af. Cystadleuaeth 263
– Gwaith Creadigol 3D Tecstilau
Bl. 10 a dan 19 oed – India Duce 2il.

Llongyfarchiadau i'r ddau
ddisgybl ac i Meleri am sefydlu
cangen newydd a chario neges yr
Urdd i Aberdeen, Yr Alban.

Y Gwew

Mae'r gwew'n canu yn y coed
Ar ddydd o Ebrill mwyna 'rioed,
Rhoef dro i'm harian gwyn a boed
Rhyw lwc i mi o'i chlywed.

Trwy gydol Mai ei deunod clir
A glywir beunydd yn y tir,
Pan ddaw Mehefin ar fy ngwir
Ei nodau pêr sy'n torri.

I ffwrdd â hi i Wlad yr Haf
Lle mae y tywydd fyth yn braf,
Hiraethu am ei chân a wnaif
Drwy fisoedd oer y Gaeaf.

Ac yn y Gwanwyn fe ddaw'n ôl
I ganu eto ar y ddôl,
A gwas y neidr ar ei hôl,
Wel, Croeso i ti Gwew.

Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf

Cyhoeddir y penillion yma ar gais
Gillian Jones, Meysydd, Drefach.
Roedd Lynda wrth ei bodd yn dysgu'r
gân i'w disgyblion bob mis Ebrill.

Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



**Sirian Davies, Coedlannau
Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045**

Llanybydder



Ar 28ain Ebrill, cynhaiodd pwyllgor Ymchwil Cancr Llanybydder a'r
ardal noson arbennig iawn yng Ngwesty'r Cross Hands, Llanybydder. Ein
diddanwr oedd Mr Huw Evans a'r llywydd oedd Mr Karl Patel a diolch
iddo am ei gyfraniad hael. Yn gwerthu yn yr ocsiwn oedd Mr Mark Evans a
diolchwn iddo am ei waith.

Roedd y bwyd yn ardderchog a phawb wedi mwynhau. Gwnaethpwyd
elw o £3,773-81 at yr elusen. Talwyd y diolchiadau gan ein Cadeirydd Y
Cynghorydd Ieuan Davies.



Mae Bara Gwalia wedi noddi crysau pêl droed tîm o dan 6 Llambed.

Diolch

Dymuna Heather, Gareth a Julian
ddiolch o galon i bawb am y cardiau,
blodau, galwadau ffôn a'r rhoddion
tuag at Eglwys Sant Caron. Tregaron
er cof am Kathleen, sef chwaer
Gareth, a fu farw mis Mawrth. Bu
hyn yn gysur mawr iddynt.

Diolch yn fawr.

Dymuna Mattie a Heather ddiolch
yn fawr i bawb am y cardiau,
blodau, anrhegion a'r geiriau
caredig a gawsant ar adeg eu
hymddeoliad o'r gwaith yn Fferyllfa
'Well', Llanybydder ddiwedd mis
Ebrill.

Pwyllgor Buddiannau'r Henoed

Cynhaliwyd Noson Goffi
lwyddiannus yn Festri Capel
Aberduar nos Wener, Ebrill 27ain.
Agorwyd y noson gan ein Llywydd
Y Parchedig D. Huw Roberts.
Rhoddodd araith bwrsasol iawn, a
chyfrannodd yn hael i'r coffrau.

Bu plant Ysgol Llanybydder a
Chôr Lleisiau'r Werin yn diddanu'r
gynulleidfa a chafwyd yn ôl yr arfer,
fwynhad mawr wrth wrando ar y
plant a'r côr. Mawr yw ein dyled i

chi am ddod o flwyddyn i flwyddyn.
Da iawn blant am eistedd a gwrando
trwy gydol yr amser ar ôl gorffen
eich gwaith. Bu pawb yn hael iawn
wrth gyfrannu a phrynu.

Dymuniad y pwyllgor yw diolch i
bawb a fu'n gweithio mewn amryw
ffordd i sicrhau llwyddiant y noson.
Enillwyr y raffl oedd: 1. Garry Jones
Williams. 2. Rhys 480768. 3. Susan
Evans. 4. 480574. 5. John Gore. 6.
Emyr Thomas c/o Evans Bros 7. A P
Jones 05734 866302 8. Myra Morris.
Hamper 1. Terry Herbert 2. Beti
Davies.

Ar ôl i'r Noson Goffi orffen,
braf oedd gweld Mr Alwyn
Humphreys ac aelodau o Prynhawn
Da yn cyrraedd Festri Aberduar
i longyfarch Dewi a Bet Davies,
Glynteg (Dewi Evans Bros) a
throsglwyddo Plât Halen y Ddaear
a blodau iddynt. Roedd y ddau yn
haeddu'r anrhydedd gan eu bod
wedi cefnogi cymaint o fudiadau
ar hyd y blynyddoedd a bob amser
yn barod eu cymwynas. I orffen y
noson, canodd plant yr ysgol gân
addas i ddiolch yn fawr i'r ddau.
Yn wir, roedd hi'n noson i'w
chofio.

Pen-blwydd priodas aur



Pen-blwydd priodas aur hapus iawn i Eric a Tegwen Davies, Ninant, Llanllwni. Llongyfarchiadau mawr i chi'ch dau ar yr achlysur arbennig yma. Gyda llawer o gariad, oddi wrth Helen, Dewi, Carol, Andrew, Catrin, Bethan, Dafydd a Gwenllian

Ysgol Llanllwni

Llongyfarchiadau i Einir George a enillodd yr ail wobwr am gyfres o brintiau lliw yn ymwneud â'r thema "Chwedlau" yng nghystadlaeth Celf a Chrefft Rhanbarth yr Urdd yn Llangrannog. Da iawn ti Einir.

Ymunodd plant yr ysgol â'r Ysgol Feithrin i wisgo pyjamas i'r ysgol am ddiwrnod er mwyn codi arian i'r Ysgol Feithrin.

Cynhaliwyd cyngerdd lwyddiannus iawn nos Wener y 4ydd o Fai yng Nghapel Nonni. Trefnwyd y noson gan 'Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r Ysgol'. Yr artistiaid oedd plant yr ysgol a pharti "Bois Ar Wasgar" gyda Mr Owain Davies yn arwain y noson mewn ffordd hwylus iawn. Cafodd y plant ganmoliaeth uchel am safon eu perfformiad a'r amrywiaeth o eitemau oedd ganddynt i ddiddori'r gynulleidfa. Diolch yn fawr i Mrs. Bethan Hopkins-Jones am gyfeilio i'r plant. Roedd pawb wedi mwynhau gwrando ar y parti bechgyn o ardal Dyffryn Cothi dan arweiniad Mrs. Irene Williams gyda Mr. Elfyn Davies yn cyfeilio iddynt. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Gwnaed £550 o elw tuag at 'Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r ysgol'. Diolch yn fawr i Mr. a Mrs. Eurig Thomas a Mr. a Mrs. Eric Davies am eu rhoddion hael. Diolch i Mr. Tom Bowen a Mr. Eric Davies am fod wrth y drws ac i aelodau'r Capel am gael defnyddio'r capel i gynnal y cyngerdd a'r ymarfer cyn hynny. Diolch i 'Talardd', y rhieni a staff yr ysgol am baratoi lluniaeth i'r artistiaid ar ôl y gyngerdd.

Ymwelodd dau aelod o'r RNLI â'r ysgol i roi sesiwn ddiddorol ac addysgiadol i'r plant am ddiogelwch glan y môr. Cafodd rhai o'r plant gyfle i wisgo'r dillad maent yn defnyddio yn eu gwaith a chyfle i ateb a gofyn cwestiynau.

Bu'r Adran Iau yn chwarae pêl-droed a rownderi yn Llanbed gyda chwstwr ysgolion Llanbed. Roeddent wedi mwynhau'r profiad ac wedi chwarae yn arbennig o dda.

Bu aelodau'r Urdd yn y Cyfnod Sylfaen yn cystadlu yng Ngemau Potes yr Urdd yn Llanbed. Roedd yn brofiad newydd i nifer ohonynt ac roeddent i gyd wedi mwynhau.

I orffen ein sesiynau Urdd am y flwyddyn ysgol, buom yn gweld "Sherlock Gnomes" yn y sinema yng Nghaerfyrddin ac yna yn cael swper yn McDonalds. Roedd yn noson hwylus iawn a phawb wedi mwynhau mas draw.

Bu disgyblion Blwyddyn 5 a 6 mewn diwrnod pontio yn Llanbed cyn gwyliau hanner tymor gan greu ffilmiau yn seiliedig ar Chwedlau a gwneud chwaraeon. Roeddent wedi cael amser da.

Hoffwn longyfarch ein ficer, Y Parchedig Susie Bale ar gael ei gwneud yn Ganon gan ddymuno yn dda iddi yn ei gofalaeth newydd yn Rhydaman. Byddwn yn gweld ei heisiau yn fawr gan ei bod yn dod mewn atom yn wythnosol ers wyth mlynedd i gynnal gwasanaeth boreol a hynny mewn ffordd hwyllog a diddorol. Dymunwn bob lwc ac iechyd i chi yn y dyfodol.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol- Mis Mai - 1af -£10 - Kayleigh Wood, Greenpark, Llanllwni; 2ail - £5 - Jane Jones, Arffon, Llanybydder. 3ydd - £5 - Dewi Jones, Gwyddgrug.

C.Ff.I. Llanllwni

Un o'r prif ddigwyddiadau o galendr y CFfI yw'r rali flynyddol a gafodd ei chynnal ar faes y sioe, Nantyci ar Mai 12fed.

Dyma rai canlyniadau iau a ddaeth i'r brig: 1af- Canu- Grŵp Iau- Ceris Howells, Siriol Howells, Mared Phillips, Nia Davies, Sioned Bowen, Sioned Howells a Cathrin Jones; 2il- Gwaith Coed Iau- Alwyn Evans ac Ifan Thomas.

Gyda'r canlyniadau a ddaeth i'r tri olaf a'r holl ganlyniadau eraill, fe wnaeth yr adran Iau ddod yn 4ydd ar ddiwedd y dydd! Llongyfarchiadau i bawb!

Dyma rai o ganlyniadau'r adran hŷn: 2il- Prif Gylch RAF; 2il- Barnu Defaid Duon Mynydd- Siôn Evans ac Anwen Jones; 2il- Gwaith Coed- Carwyn Lewis ac Arwel Jones; 2il- Crefft- Hefin Jones; 3ydd- Crefft- Betsan Jones.

Erbyn diwedd y dydd fe ddaeth y clwb yn 9fed yn yr adran hŷn. Llongyfarchiadau i bawb, a Phob Lwc i'r merched grŵp canu sydd wedi mynd ymlaen i Gymru a byddant felly yn y Sioe Frenhinol eleni.

Braf hefyd oedd gweld un o aelodau CFfI Llanllwni yn derbyn yr anrhydedd o fod yn un o Lysgenhadon y Sir. Llongyfarchiadau mawr i ti Arwel, a phob lwc yn y flwyddyn sydd



Dathlu bod Cylch Meithrin Llanllwni wedi derbyn Safonau Serennog.



Disgyblion Ysgol Llanllwni a fu'n cystadlu yng nghystadlaeth 'celf a chrefft' yr Urdd.

i'w ddod. (Lluniau ar dudalen 26.)

Cynhaliwyd Helfa Drysor flynyddol y clwb eleni gydag enillwyr llynedd yn ei threfnu, sef Marion a Siriol Howells. Llongyfarchiadau i Catrin Evans, Elin Evans a Nerys Thomas am ennill yr helfa drysor ar ôl i'r canlyniadau fod yn rhai agos iawn. Diolch yn fawr i garej Windy Corner am noddi'r wobwr eleni eto.

Cynhaliwyd cinio dathlu 75 mlynedd y clwb eleni yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin. Roedd hi'n noson llawn hwyl wrth i Arwel ein Cadeirydd edrych yn ôl ar flwyddyn lwyddiannus a oedd yn llawn gweithgareddau gwahanol. Gwnaeth Arwel hefyd ddod yn Aelod y Flwyddyn ar ôl ei lwyddiant eleni. Y siaradwr gwadd eleni oedd Mr Arwyn Davies, Capel Tudust a gwnaeth ei araith ein hysbrydoli. Llywyddion presennol y clwb yw Mr a Mrs Jones, Penllain a gwnaethant hwy hefyd ddod â geiriau pwrpasol i'r cinio wrth ddathlu 75 mlynedd o Glwb Llanllwni. Gwnaed y diolchiadau gan ein His-gadeirydd, Hefin. Diolch i bawb a wnaeth ymuno â ni, yn aelodau, cyn-aelodau, rhieni a ffrindiau. Edrychwn ymlaen at eich cwmni'r flwyddyn nesa.

Eleni mae ein Sioe Flynyddol yn cael ei chynnal ar Ddydd Llun, 27ain o Awst 2018, yn Llanllwni. Bydd yr elw eleni yn cael ei rannu rhwng 'Uned Gofal y Fron, Ysbyty'r Tywysog Philip' ac

'Epilepsy Action'. Yn ystod y dydd, bydd arddangosfeydd o adrannau amrywiol yn y babell, Sioe Gŵn, Sioe Ddefaid, Sioe Hen Gerbydau a Rasys Hwyl i Blant. Mae'r adloniant gyda'r nos yn cynnwys sioe fideo 'gwartheg' ac arwerthiant a raffl fawr. Bydd mwy o fanylion i ddilyn, ond gobeithio y gwelwn ni chi yna!

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Cadfryn Thomas, Mayfield a fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 90ed ar 7fed Mehefin.

Noson Goffi

Cynhelir Noson Goffi yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 28 Mehefin am 7.30yh. Croeso Cynnes i bawb.

Capel Nonni

Cynhelir Oedfa Flynyddol Capel Nonni dydd Sul, Mehefin 24ain am 2.00y.p. Disgwylir y Parchedig Richard Henry Lewis, Aberystwyth i bregethu. Croeso cynnes i bawb.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Alan a Valerie Jones, Maes-y-llyn ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem diwedd mis diwethaf. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.

Diolch

Hoffai Mrs Sarah Jones, Sarn Helen a'r teulu ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a



Cinio dathlu 75 mlynedd CFfl Llanllwni yng Nghaerfyrddin.



Yn Eisteddfod Gadeiriol Talgarreg enillydd yr unawd 8-10 oed oedd Alwena Mair Owen, Llanllwni gydag Alaw Silvestri-Jones, Talgarreg yn ail. Alwena hefyd a enillodd y cyntaf yn yr unawd offerynnol dan 12 oed.

chefnogaeth ar achlysur o golli ei mab Eirian yn ddiweddar.

Eglwys Sant Luc Llanllwni

Clwb 100 mis Mai. Enillwyr: 1af £15.00 Ifora Parry (rhif 60).

Cylch Meithrin Llanllwni

Bu'r Cylch Meithrin yn llwyddiannus dros ben yn ddiweddar wrth dderbyn plac safon arian gan y Mudiad Meithrin. Cyflwynwyd porffolio o waith i banel o swyddogion Mudiad Meithrin ble cytunwyd bod safon y cylch yn haeddu yr haen arian. Mae hyn yn awr yn galluogi'r cylch i gwrdd ag athrawon cyswllt y Sir er mwyn trafod ariannu yn y cylch eto. Fe gyflwynwyd y plac i ni yn y Cylch yn ddiweddar ac fe wnaethom ddathlu drwy gynnal parti. Llongyfarchiadau Mawr Cylch Meithrin Llanllwni!

Ar y 3ydd o Fai, cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y Cylch. Yn dilyn y cyfarfod ethowyd Glenys Evans yn Gadeirydd y cylch, Rhian Bellamy-Powell yn Is-Gadeirydd, Rhian Davies yn ysgrifenyddes, Caryl Jones yn drysorydd a Iona Jones yn ohebydd y wasg am y flwyddyn 2018-19.

Mae'r cylch wedi bod yn gwneud amryw o weithgareddau yn cynnwys plannu blodau haul, creu blodau haul



Arweinydd Cylch Meithrin Llanllwni ynghyd â'r cadeirydd a'r ysgrifennydd yn torri cacen i ddathlu derbyn Safonau Serennog.

gyda glud a phapur ac roedd y plant wedi mwynhau peintio Smot y ci.

Bu'r Cylch hefyd yn dathlu'r briodas Frenhinol gyda'r plantos i gyd wedi gwisgo yn smart iawn ac yn mwynhau dathlu drwy gynnal parti.

Mae'r Cylch yn bwriadu mynychu'r sioe 'Dewin a Doti' yn Fferm Ffoli ar yr 28ain o Fehefin a hefyd cymryd rhan ym mabolgampau'r meithrin a Ti a Fi yn Nrefach Felindre. Fe gewch yr hanes yn y rhifyn nesa!

Mae Cylch Meithrin Llanllwni yn rhedeg ar foreau dydd Llun, Mawrth, Mercher a Gwener ar gampws yr ysgol Gynradd, rhwng 8:45 a 12. Cynigir addysg a gofal o safon uchel trwy gyfrwng y Gymraeg i blant 2 oed tan oedran ysgol. Os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Helen Davies ar 07377 781977 neu cylchmeithrinllanllwni@yahoo.co.uk

Cylch Ti a Fi Llanllwni

Yn ddiweddar, mae cylch Ti a Fi wedi bod yn coginio pítsa a gwneud amryw o bethau allan o glai. Ar y 24ain o Fai, fe ddaeth Nia o Fenter Gorllewin Sir Gâr allan i ddiddanu'r plant. Roedd y plant wedi mwynhau yn ei chwmni.

Cynhelir Cylch Ti a Fi ar foreau dydd Iau, rhwng 10-12yb ar gampws yr ysgol. Croeso i rieni, gofalwyr, mam-gus a thad-cus i ddod gyda'u plant i fwynhau gwahanol weithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros banded.

Wrth groesawu mis Mehefin i'r gegin, rydym hefyd yn croesawu'r Haf, ac un o'r ffrwythau sydd yn cwmpasu'r Haf i mi yw'r mefus. Dyma'r adeg mae'r rhai Prydeinig yn eu tymor. Felly'r mis yma rwyf am gynnig casgliad o ryseitiau sydd yn gwneud y gorau o'r mefus. Maent yn hyfryd wrth gwrs, yn gwmni i hufen, neu wedi'u rhostio mewn pecynnau gyda gwirod, neu oren ar y BBQ.

Dyma hanesyn diddorol o adeg y Rhyfel Byd Cyntaf: dim ond mefus a gasglwyd ar Ddydd Sadwrn oedd ar werth i'r cyhoedd; roedd y gweddill yn cael eu paratoi ar gyfer jam i'r fyddin.

Gobeithio bydd y ryseitiau yma'n ddefnyddiol dros yr haf. Pob hwyl wrth fwynhau'r mefus!

O wres y gegin,

Gareth

Ffŵl Mefus

100 g mefus

2 ddarn o sinsir ffres wedi'u torri'n fân.

Siwgr i flasau

½ pint hufen dwbl

¼ pint iogwrt groegaidd

Mefus i addurno.

Dull

1. Malwch y mefus, sinsir a'r siwgr mewn prosesydd.
2. Chwipiwcw yr hufen a chyfunwch yr iogwrt gyda'r mefus, gan greu effaith marmor.
3. Rhannwch rhwng y gwydrau ac addurnwch gyda'r mefus sy'n weddill.

Pwdin Hirddydd Haf

14 tafell bara gwyn

4 oren wedi eu plicio a'u sleisio. Cadwch y sudd.

1 'punnet' mefus, wedi'u darnio

4 llwy fwrdd o wirod oren

Dull

1. Irwch 4 pot bach metel a thorrwch 8 cylch o'r bara; torrwch y gweddill yn frigau Gosodwch 4 cylch yn y potiau, a defnyddiwch y brigau bara o gwmpas yr ochrau.
2. Ychwanegwch sudd yr oren i'r gwirod.
3. Cymysgwch y mefus a'r oren, a llenwch y potiau. Gosodwch gylch o fara ar y top. Arllwyswch yr hylif drostynt, a gwasgwch â phlât a phwysau ar ei ben.
4. Gosodwch yn yr oergell dros nos.
5. Trowch allan ar blât, a gweinwch gyda hufen.

Gateau Mefus

100 g blawd codi

½ pint hufen dwbl

1 punnet mefus

1 llwy de powdwr codi

100 g siwgr mân

100 g menyng

2 wy

2 llwy fwrdd sieri

100 g siocled gwyn



Dull

1. Rhydyllwch y blawd a'r powdwr codi i bowl, yna ychwanegwch yr wyau a'r siwgr, a chwipiwcw nes yn llyfn. Rhannwch rhwng 2 dun 'spring' 7 modfedd sydd wedi'u hiro. Pobwch am 20 munud ar 400 F neu 200 C
2. Gadewch i oeri cyn tafelli'r ddau sbwng, a gwlychwch â'r sieri.
3. Chwipiwcw yr hufen, a thorrwch y mefus yn ddarnau. Gwasgarwch yr hufen dros y cacennau, ac yna'r mefus. Gosodwch ar ben ei gilydd i greu gateau.
4. Addurnwch gyda mwy o hufen a mefus, a'r siocled gwyn wedi gratio.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

*Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion*



Grŵp bl 2 Ysgol Bro Pedr yn cipio'r ail wobwr yn Eisteddfod Sirol yr Urdd am waith creadigol. (Vanessa yn absennol o'r llun) Da iawn chi.



Llongyfarchiadau i Elizabeth, Mabli, Nikola a Weronika (absennol o'r llun) am gipio'r ail wobwr yn Eisteddfod yr Urdd am greu gwaith llafar i ddysgwyr.



Tîm pêl droed bl 3 a 4 Ysgol Bro Pedr yn ennill twrnamaint i ysgolion y cylch.



Jamie Lewis (Dartiau Cymru) yn chwarae gêm o ddartiau i'r plant yn ystod ei ymweliad ag Ysgol Bro Pedr yn ddiweddar.



Tîm pêl-droed bl 5 a 6 Ysgol Bro Pedr yn ennill twrnamaint i ysgolion y cylch.




Tîm Rownderi Ysgol Bro Pedr yn dod yn ail yn nhwrmaint ysgolion y cylch.



Beca Roberts a gipiodd y drydedd wobwr am ysgrifennu barddoniaeth i ddisgyblion bl 10 ac 11 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.



Daniel Hughes a gipiodd yr ail wobwr am greu arteffact yng nghystadleuaeth bl 7, 8 a 9 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.



Fflur Meredith sydd wedi cipio tair ail wobwr yn Eisteddfod yr Urdd:- 2il Gwaith Tecstilau Creadigol 3D bl 3 a 4, 2il Gwehyddu bl 3 a 4, 2il Arteffact.



Cafodd Leon ac Anthony (absennol) y wobwr gyntaf am Waith 3 D bl 7, 8 a 9 (ADY) yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.



Lola Jones Ysgol Bro Pedr yn cipio'r drydedd wobwr am waith 2D Tecstilïau bl 3 a 4 yn Eisteddfod Sirol yr Urdd.



Twm Ebbsworth a gipiodd yr ail wobwr am ysgrifennu barddoniaeth i ddisgyblion bl 12 a 13 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.



HARP ('Holistic Acute Recovery Programme' ar gyfer canser y pen a'r gwddf ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda) a Chymdeithas Strôc oedd yr elusennau a ddewisodd Prif Swyddogion Ysgol Bro Pedr eleni. Codwyd swm sylweddol o £2135.68 ganddynt a rhannwyd yr arian rhwng y ddwy elusen. Cyflwynwyd y swm i Anwen Butten o HARP gan y brif ferch Alpha Evans. Hari Butten, y prif fachgen gyflwynodd yr arian i Julie Price o'r Gymdeithas Strôc. Hefyd yn y llun, mae'r Swyddogion Robert Jenkins, Ffion Evans a Manon Williams. Roedd Twm Ebbsworth yn absennol.

Braf oedd cael croesawu disgyblion o flynyddoedd 3,4,5 a 6 o ysgolion y cylch i Ysgol Bro Pedr i fwynhau trwnamaint rownderi a phêl-droed. Ar ddiwedd diwrnod o gystadlu brwd, braf oedd cael cyflwyno tariannau a medalau i'r buddugwyr o ysgolion y cylch. Diolch i Mr John am drefnu a llongyfarchiadau i dîm pêl-droed Bro Pedr o flynyddoedd 3 a 4, a thîm pêl-droed Bro Pedr bl 5 a 6 ar ennill eu cystadlaethau ac i dîm rownderi blynyddoedd 5 a 6 am ddod yn ail. Gwnaeth Mathew a Marc Tattersall drefnu gwerthiant cacennau yn yr ysgol a chodwyd £255 tuag at Gronfa Alzheimer's er cof am eu tad-cu. Diolch i'r bechgyn ac i bawb a gefnogodd.

Diolch i Jenny Pitchford a ddaeth i'r ysgol i wneud sesiynau sgiliau criced gyda'r disgyblion ym mlynnyddoedd 1, 2 a 3 – cafwyd llawer o hwyl a sbri. Mae'r plant yn parhau i arddio yn yr ysgol – tyfu llysiau, plannu blodau a chwynnu – edrychwn ymlaen at gael gweld y cynnyrch ar ddiwedd y tymor. Diolch i Mr a Mrs Pink am eu cefnogaeth. Cynhaliwyd diwrnod i ddathlu Cymreictod ar draws campws yr ysgol a bu disgyblion o oedran Meithrin hyd at flwyddyn 9 yn mwynhau gwrando ar gyflwyniadau bywiog gan y Welsh Whisperer a chael cyfle i ofyn amryw o gwestiynau iddo. Bu blwyddyn 5 yn cyfansoddi cân gyda'r Welsh Whisperer a hyfryd oedd cael clywed eu datganiad ar ddiwedd y dydd. Cafodd nifer y cyfle i ddawnsio i gerddoriaeth Gymraeg dan arweiniad medrus Elan Lewis ac eraill yn gwneud sesiynau dysgu Uwkelele gyda Steff o Cered. Cawsom ymwelwyr pwysig hefyd ar y diwrnod sef Seren a Sbarc - dau fascot i hybu'r iaith Gymraeg yng Ngheredigion. Diolch i bawb a ddaeth atom i gynnal sesiynau ac i holl staff yr ysgol a fu'n paratoi amrywiaeth o weithgareddau a chreu ffilmiau i hybu'r iaith ar draws y campws.

Diolch i Rhydian a Meriel am ddod atom i gynnal Chwaraeon Potes gyda disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen - gwnaeth pawb o ysgolion y cylch fwynhau'n fawr a chael creision a dŵr blasus yn glo ar brynhawn bendigedig yn yr haul. Yng nghystadlaethau Trawsgwlad Cenedlaethol yr Urdd, daeth llwyddiant i nifer o ddisgyblion a diolch i Mr Jones am drefnu. Da iawn chi Liam Regan, Jake Lewis, Woody Lewis, Molly Burgess, Robyn Jones a Finley Woodcraft.

Croesawyd disgyblion o flynyddoedd 5 a 6 y cylch atom i Fro Pedr ar gyfer diwrnod o bontio. Roedd pob ysgol wedi paratoi ffilm ddiddorol ar waith yr ysgol neu chwedl/hanes lleol a hyfryd oedd cael gwyllo perfformiadau pob ysgol a diolch o galon i'r holl staff a'r disgyblion am y gwaith paratoi graenus. Yna cafwyd cyfle i fwyta cinio blasus yn ffreutur yr ysgol Hŷn a mwynhau prynhawn braf o gymdeithasu a chymryd rhan mewn amryw o chwaraeon. Diolch i Mrs H Dafis a Mr H Roderick am eu trefniadau manwl.

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Sirol yr Urdd:- Lluniadu bl 10 ac o dan 19 oed - 1af Cerys Pollock; Gwaith Creadigol bl 2 ac iau - (grŵp) 2il Lily Edgell, Joseph Palmer, Mateusz Lisiecki, Vanessa, Issy Michael Arlo; Gwaith Creadigol bl 7, 8, 9 - 3ydd Lleucu Rees; Gwaith Creadigol 2D dan 25 oed (ADY) - 1af Ellie Kirk; Graffeg Gyfrifiadurol bl 7,8 a 9 - 1af Lleucu Rees, 2il Chloe Jones, 3ydd Zoe Jarman Davies; Graffeg Gyfrifiadurol dan 19 oed - 1af Rhys Stephens; Argraffu bl 7,8 a 9 - 3ydd Guto Ebbsworth; Gwaith 2D Tecstilïau bl 3 a 4 - 3ydd Lola Jones; Gwaith Creadigol Tecstilïau bl 3 a 4 - 1af Fflur Meredith; Gwehyddu bl 3 a 4 - 1af Fflur Meredith; Gwehyddu bl 7,8 a 9 - 2il Ifan Meredith; Gwaith Creadigol 3D bl 7,8 a 9 (ADY) - 1af Anthony a Leon; Gwaith Creadigol 3D bl 10 ac o dan 19 oed - 1af Ellie Kirk; Artefact bl 3 a 4 - 1af Fflur Meredith; Serameg bl 7,8 a 9 - 2il Elen Jones; Cad/Cam bl 10 ac o dan 19 oed - 1af Manon Williams; Dylunio a Thechnoleg bl 3 a 4 - 1af Fflur Meredith.



Yn ystod aduniad ysgol blwyddyn 1963, llwyddwyd i godi'r swm o £202 tuag at Ganolfan y Bont, Llambod. Cyflwynodd trefnwyr yr aduniad sef Eleri Thomas, Helen Davies, Dai Jones a Douglas Williams y siec i Jane Wyn, Pennaeth Ysgol Bro Pedr; Bethan Payne, Pennaeth yr adran; y staff a'r disgyblion. Yn anffodus, roedd Enfys Llwyd yn methu bod yn bresennol.

Fel rhan o thema'r tymor yn yr Adran Iau, daeth Jamie Lewis sy'n chwarae dartiau dros Gymru i'r ysgol ac roedd y plant yn llawn cyffro. Cafwyd prynhawn hwylus iawn yn ei gwmni wrth iddo chwarae dartiau o flaen y plant ac ateb amryw o'u cwestiynau. Diolch yn fawr iawn iddo am ddod atom a diolch i Mr Clark am drefnu ac i Mr Bedwyr Davies am ddod i osod y bwrdd dartiau.

Daeth llwyddiant ysgubol i'r disgyblion canlynol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd:- Twm Ebbsworth 2il am farddoniaeth bl 12 a 13; Beca Roberts 3ydd am farddoniaeth bl 10-11; Manon Williams 1af CAD/CAM bl 10-19 oed; Anthony a Leon 1af Gwaith 3 D bl 7, 8 a 9 (ADY); Fflur Meredith 2il Gwaith Tecstilïau Creadigol 3 D bl 3 a 4; Fflur Meredith 2il Gwehyddu bl 3 a 4; Fflur Meredith 2il Artefact bl 3 a 4; Dan Hughes 2il Artefact bl 7, 8 a 9; Cerys Pollock 3ydd Lluniadu 2D Bl 10 - 19 oed.

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio cyflawn ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini gysurus Clwb Rygbi Llambod yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 2.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.



Peiriant
Rhostio
Mochyn
ar gael

Enw: Lowri Pugh-Davies
Oed: 25
Pentref: Llangybi
Gwaith: Rheolwraig Canolfan
Rhiannon Tregaron
Partner: Sengl
Teulu: Mam (Sheila), Brawd (Rhodri)

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Chwarae tŷ gyda'r dolis a'r tedis tu
allan cartref Mam-gu Coxhead.

Hoff raglen deledu pan yn blentyn.
Sali Mali

Yr eiliad o embaras mwyaf.
Cwmpo i gysgu yng nghanol fy
mharti pen-blwydd yn 18 oed.

**Y peth pwysicaf a ddysgest yn
blentyn.**
I drin pawb fel yr wyt ti am gael
dy drin.

**Taset ti'n gallu mynd nôl mewn
amser, beth fyddet ti'n dweud
wrth dy hun yn 16 oed?**
I gymryd pob cyfle a cheisio magu
mwy o hunanhyder.

Y CD cyntaf a brynest di erioed?
Spice Girls

**Pan oeddet yn blentyn, beth
oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?**
Un o'r Spice Girls

**Beth oedd y peth ofnadwy wnest
ti i gael row gan rywun?**
Cau ffenest y car a phen Rhodri allan
o'r ffenest. (Heb yn wybod i mi).

**Beth oedd y frawddeg bachu
gorau a ddefnyddiaist erioed,
neu'r frawddeg bachu a glywaist?**
Mi wnaeth un bachgen ddweud ei
fod angen defnyddio fy ffôn i gan ei
fod e wedi colli ei ffôn. Pan ffoniodd,
roedd ei ffôn yn canu yn ei boced . .
ffordd i gael fy rhif i oedd e.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Ar y sofffa gyda Jim y ci, paned o
de a siocled.

Beth yw dy lysenw?
'Lows', 'PD' neu i'r teulu 'Jên'.

**I ba gymeriad enwog wyt ti'n
debyg?**
Miranda Hart.

Pwy yw dy arwr?
Mam-gu Coxhead. Mae'n dal i
weithio ac fel 'deryn yn 82 oed.

Taset ti'n fised, pa fath fyddet ti?
Digestive Caramel. Mae'n edrych
fel digestive traddodiadol ond gyda
syrpreis yn y canol.

**Taset ti'n anifail, pa anifail
fyddet ti a pham?**



Mae fy mrawd yn dweud wrtha
i am ddweud 'Lizard' achos bod
ganddi nifer o rinweddau ac mae'n
llwgar hefyd.

Beth yw dy arbenigedd?
Cynllunio a chreu cynnyrch.

**Beth yw'r peth gorau am dy
swydd bresennol?**
Gweithio mewn lle creadigol a
chael cwrdd ag amrywiaeth o bobl
bob dydd.

**Beth yw'r peth gwaethaf am dy
swydd bresennol?**
Gorfod gweithio tu fewn bob dydd
- ar ddiwrnod braf o haf mae'n
dorcalonnus!

Y peth gorau am yr ardal hon?
Byw yng nghefn gwlad a golygfeydd
arbennig ar stepen ein drws.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Trafnidiaeth gyhoeddus! Yn aml
mae'n anodd i fynd i unman
heblaw am yn y car.

Pa mor wyrdd wyt ti?
Dw i'n weddol wyrdd. Trio
gwneud cymaint a dwi'n gallu.

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg.

**Pa fath o berson sy'n mynd o
dan dy groen?**
Person celwyddog a dauwynebog!

**Sut fyddet ti'n gwario £10,000
mewn awr?**
Y peth cyntaf byddwn i'n gwneud
fyddai cael stiwdio i fy hun a falle
prynu dafad texel i'r stoc.

Beth sy'n codi ofn arnat?
Llygod!

Pryd llefaist ti ddiwethaf?
Wrth wyllo pennod olaf o 'Parch'!

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
Ar ôl Sul Hwylus y Pasg!

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Dw i ddim rili yn mynd yn grac.

Dw i'n 'laid back' ofnadw'!

**Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i
ti ddihuno ynddo yn y bore?**
Ron i'n meddwl fy mod wedi
mynd adre ar ôl noson allan yn y
coleg. Ond, pan ddihunais roeddwn
yn nhŷ Elen fy ffrind.

Am beth wyt ti'n breuddwydio?
Rhedeg siop fy hun.

Unrhyw ofergoelion?
Ni wnaif gerdded o dan ysgol.

**Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n
broffesiynol?**
Cael dysgu sut mae gwneud
gemwaith yn y gweithdy gyda
Rhiannon.

Ac yn bersonol?
Cael fy newis yn swyddog gyda
C.Ff.I. Ceredigion .

Wyt ti'n difaru rhywbeth?
Es i ddim i deithio ar ôl gadael coleg.
Es i'n syth i swydd llawn amser.

Dy gyfrinach i gadw'n heini?
Rhedeg a boot camp.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Cael Jim y ci .

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Creadigol, pwyllog ac amyneddgar.

Beth yw dy hoff wisg?
Pyjamas a dressing gown.

A'th hoff adeilad?
Tŷ mam-gu Coxhead.

**Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod
yn sownd ar ynys anghysbell?**
Bear Grylls.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Chinese.

Beth yw dy ddiod arferol?
Dŵr o ddydd i dydd ond ar noson
allan dw i'n yfed Southern
Comfort Lime a Lemonade.

Beth yw dy hoff arogl?
Cannwyll Winter Spice.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Mynd am run.

**Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi
fwyaf aml?**
Instagram.

**Sawl ffrind sydd gennyt ti ar
facebook?**
1,108

Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?
Greatest Showman

**Pa un peth fyddet ti'n newid am
dy hun?**

Bod yn well yn gwneud
penderfyniadau.

Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?
Fy 'Eyelashes'

**Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n
achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?**
Jim y ci a'r lluniau.

**Oes yna rywbeth na elli di ei
wneud y byddet ti'n hoffi ei
gyflawni'n dda?**
Cneifio.

Beth sy'n rhoi egni i ti?
Coffi a banana.

**Beth fyddet yn ei wneud pe na
baet yn gwneud y gwaith hwn?**
Teithio'r byd.

**Ar beth y gwnest orwario arno
fwyaf?**
Sêl hyrddod yn Welshpool gyda
Rhodri.

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Jim y ci a'r ddiadell 'texel'.

Y dylanwad mwyaf arnat ti?
Mrs Ann a Mrs Heledd Dafis
yw'r ddwy athrawes sydd wedi
fy nghefnogi a'm hannog i fod yn
greadigol.

Y gwyliau gorau?
Strasbourg gyda'r C.Ff.I. Doedd
e ddim yn wyliau ond dyna un o'r
profiadau gorau.

**Pa dri lle yng Nghymru yr hoffet
ymweld â nhw cyn dy fod yn 50?**
Yr Wyddfa, Portmeirion ac Ynys
Llanddwyn.

**Pa dair gwlad yr hoffet fynd
iddyn nhw cyn marw?**
Seland Newydd, Awstralia a
Thailand

**Pa dri pheth yr hoffet ti wneud
cyn dy fod yn ddeugain?**
Mwy o deithio, rhedeg siop fy hun
a cherdded y 'Three Peaks'.

**Pa sioc alli di roi i ddarllenwyr
Clonc amdanat ti dy hun?**
Mae Joe Swash yn fy nilyn ar Twitter.

**Pa bwerau arbennig fyddet ti'n
hoffi eu meddu?**
Hedfan.

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?
Gobeitho y byddaf yn byw ar 'small
holding' a rhedeg siop fy hunan.

Cadwyn Cyfrinachau mis nesaf:
Enw: David Heath
Pentref: Llanbedr Pont Steffan



Ar ŵyl y banc crasboeth dydd Llun y 7fed o Fai, daeth ras leol newydd i fodolaeth i gefnogi ysgol gynradd newydd, sef Ysgol Dyffryn Cledlyn yn Nrefach - ras heol 5 milltir sy'n olynydd i ras Ysgol Cwrtnewydd gynt. Daeth 49 i ras yr oedolion a 29 ohonynt yn aelodau Clwb Sarn Helen ond Rob Davies o glwb Dyffryn Aman oedd yn fuddugol mewn 29 munud 14 eiliad gyda Marc Horsman o Aberteifi yn ei ddilyn. Y cyntaf o redwyr y clwb oedd Ken Caulkett (3ydd mewn 31.14) gyda Glyn Price (32.02 a'r 1af dros 50) a Simon Hall (32.35 a'r 3ydd dan 40) yn dilyn. Aeth gweddill gwobrau'r dynion i Mark Rivers (33.47 a'r ail dros 40) Nigel Davies (34.16 a'r 3ydd dros 40) Richard Marks (36.00 a'r ail dros 50) a Tony Hall (37.53 a'r 3ydd dros 50.) Dangoswyd addewid arbennig gan y rhedwyr ifanc Tom Willoughby (6ed mewn 33.33) ac yn enwedig gan Dafydd Lloyd (1leg mewn 35.44 ac yntau'r 14 oed.) Dee Jolly oedd yn fuddugol o dipyn yn ras y menywod (36.07) gyda Nicola Davies yn ail dan 35 oed (54.04.) Eleri Rivers, trefnydd y ras (39.02) oedd y fenyw 1af dan 45 gyda Pamela Carter (44.07) a Heather Hughes (47.40) yn ail a thrydydd. Dawn Kenwright oedd y fenyw gyntaf dros 45 gydag Enfys Needham Jones (45.13) yn ail a Delyth Crimes (46.50) yn 3ydd. Ond efallai mai nodwedd amlycaf yr achlysur newydd hwn oedd bod 68 o blant yn y ras i'r plant cyfnod sylfaen (gyda Dewi Brettland ac Eva Davies yn fuddugol) a 50 o blant yn y ras ysgol gynradd gyda dau o aelodau'r Clwb, Harri Rivers (4.02) a Tudur Jones (4.23) yn dod yn ail a thrydydd, Yr oedd 15 hefyd yn rhedeg yn y ras i blant ysgol uwchradd, y pedwar cyntaf - Daniel Jones (9.23) Rhys Williams, Jack Caulkett a Daniel Morgans - yn aelodau o'r Clwb. Edrychwn ymlaen at lawer ŵyl banc y Sulgwyn yn Nrefach.

Daeth ras newydd arall i fodolaeth yn ystod mis Mai sef Marathon Casnewydd dros wastatiroedd Gwent ac mae'n sicr fod yna le i farathon cyflym fel hwn yng Nghymru. Aeth rhai o aelodau'r Clwb yno a'r cyntaf ohonynt i orffen oedd Caryl Wyn Davies a ddaeth yn 6ed fenyw mewn record bersonol o 3 awr 13 munud a 15 eiliad - canlyniad campus dros ben yn ei 8fed farathon. Yno hefyd yr oedd Jack Cockburn, aelod newydd o'r Clwb yn rhedeg ei farathon gyntaf ac yn gorffen mewn amser addawol iawn (3.20.28) ynghyd â Steven Holmes (3.34.25), David Thomas (3.58.53) sydd wedi rhedeg dros hanner cant ohonynt, a Nicola Davies (5.26.45) oedd yn rhedeg i gefnogi Ysbyty Velindre.

Fe welodd mis Mai nifer o rasys eraill sy'n eithafol eu natur. Ar y 5ed fe gynhaliwyd ras lwybr Y Barcud Coch ym Mhontarfynach. Gwnaeth Dylan Lewis yn ardderchog i ddod yn 5ed (ac yn ail dros 35 oed) mewn 1 awr 39 munud a 23 eiliad dros y cwrs hanner marathon heriol hwn. Yr oedd dau enillydd gan y Clwb ymhlith y menywod - Jessica Bruce (y fenyw gyntaf mewn 2.00.45) Dawn Kenwright (1af dros 60 mewn 2.31.39) a chlod hefyd i Pamela Carter (2.50.34). Yr oedd ras 10 cilometr anodd yn rhan o'r achlysur a daeth un o aelodau'r Clwb, Andrew Pooley yn ail mewn 53 munud a 58 eiliad yn honno. Ar y 6ed o Fai daeth Ken Caulkett yn 1af yn ras lwybr 31 milltir Sant Illtyd ym Mhen-bre (y diwrnod cyn iddo redeg ras Ysgol Dyffryn Cledlyn.) Ychwanegiad go ddiweddar i'r calendr rasio yw rasys Y Bwystfil ym mynyddoedd y Preseli ac ar y 12fed o Fai cynhaliwyd tair ras lwybr, y lleiaf ohonynt dros ryw 11 o filltiroedd (Y Bwystfil Bach) ac yn y ras honno y bu rhai o aelodau'r Clwb yn cystadlu gan gynnwys yr enillydd mewn 1 awr 18 munud a 33 eiliad, Dylan Lewis. Yn ei ddilyn daeth Simon Hall (1.24.22) yn 4ydd a Glyn Price (1 24.33) yn 1af dros 50. Gorffennodd Mark Rivers (1.34.33) yn 15fed a Mitchell Readwin (1.48.17) yn 36ain allan o 200 o redwyr.

Ar 20fed o Fai eleni cynhaliwyd ras hynaf y Clwb unwaith eto a daeth 39 i gystadlu. Cwblhaodd Ken Caulkett a Dee Jolly o glwb Sarn Helen fis o lwyddiant - y naill yn ennill mewn 1 awr 56 munud 40 eiliad a'r llall yn arwain y menywod mewn 2 awr 21 munud a 28 eiliad. Y tu ôl i Ken daeth Dan Hooper yn 3ydd (2.4.33) rhyw gamau yn unig o flaen Glyn Price (2.4.37) a ddaeth yn 1af dros 50. Meic Davies (2.11.36) oedd y 3ydd dyn rhwng 40 a 50 oed gyda Steven Holmes (2.14.51) yn 4ydd yn y dosbarth hwnnw. Daeth Mick Taylor



Enillwyr Ras Fynydd Sarn Helen: Dee Jolly a Ken Caulkett



(2.40.17) yn 3ydd dros 50. Murray Kisbee (2.27.28) a Tony Hall (2.36.52) oedd y 1af a'r 2il dros 60. Eleri Rivers (2.34.04) oedd y fenyw gyntaf rhwng 35 a 50 oed gyda Pamela Carter (3.5.28) yn 2il a Delyth Crimes (3.7.56) yn 3ydd.

Am yr ail flwyddyn yr oedd ras ychwanegol ychydig yn llai heriol dros gwrs 9 milltir yn cyd-ddigwydd â'r brif ras. Enillwyd hon hefyd gan aelod ifanc o'r Clwb, Tomos Morgans, mewn 66 munud a 27 eiliad gyda Peter Osborne o Glwb Athletau Llanelli yn 2il a Gary Jones yn 3ydd. Enfys Needham Jones oedd y fenyw gyntaf yn y ras hon (1 awr 29 munud a 36 eiliad) gyda Jenny Caulkett yn 2il a Donna Davies yn 3ydd.

Eleni eto yr oedd ras ieuencid filltir a hanner ac enillwyd hon gan Dafydd Lloyd mewn 11 munud 13 eiliad gyda Daniel Jones a Rhys Williams yn dilyn. Summer Austin Spooner oedd y ferch gyntaf (13.24) gyda Esme Lynock yn ail a Violet Caulkett yn 3ydd.

Ar yr un dyddiad gwnaeth dau o aelodau'r clwb yn ardderchog yng ngŵyl Rhedeg Llwybr Llanfair Ym Muallt gyda Gareth Payne yn dod yn 8fed (1 awr 27munud a 54 eiliad) ac Andrew Poole yn 1leg (1.32.34) yn y ras lwybr hanner marathon.

Yn ôl ar y 22ain o Ebrill cynhaliwyd Ras Crannog dros gwrs newydd yng Ngwersyll Llangrannog a bu Harri Rivers (trwch blewyn o flaen Christopher Readwin) a Daniel Morgans yn fuddugol yn eu rasys ieuencid nhw. Yn ras yr oedolion gwnaeth Simon Hall, Mark Rivers a Tomos Morgans orffen yn 1af ail a 3ydd dros y Clwb, gyda Mitchell Readwin yn 3ydd yn y dosbarth dan 40. Enillwyd ras y menywod gan Dee Jolly a daeth Delyth Crimes yn 1af dros 35.

Daeth cystadlu mis Mai i ben gyda ras heol 5 cilometr blynyddol Talylychau ar nos Wener y 25ain ac yr oedd 37 o aelodau'r clwb ymhlith y 133 o redwyr a ddilynodd yr enillydd clir, David Keenan o glwb athletau Llanelli (17 munud 29 eiliad,) o amgylch y llynnoedd. Y cyflymaf ohonynt oedd Thomas Willoughby (18.42 ac yn 3ydd o'r dynion rhwng 18 a 40 oed) gyda Glyn Price (y 1af o'r dynion rhwng 50 a 60 oed) rhyw dair eiliad y tu ôl iddo. Gwnaeth bechgyn ifanc y clwb yn neilltuol o dda gydag Aled Siôn Jones a Tomos Morgans yn 3ydd a 4ydd dan 18 oed a chlod arbennig i Rhys Williams ar ddod yn 16eg yn y ras gyfan mewn 19.42. Daeth gwobrau yn ras y dynion hefyd i Meic Davies (19.23 ac yn 3ydd rhwng 40 a 50) Richard Marks (20.49) a Murray Kisbee (22.41) yn 1af ac ail dros 60. Ymhlith y menywod, dangosodd Caryl Wyn Davies (20.21) ei bod yn rhagori dros 5 cilometr yn ogystal â'r pellter marathon trwy ddod yn 1af dan 35 oed. Daeth Eleri Rivers (22.48) yn 3ydd rhwng 35 a 45. Aeth gwobrau hefyd i Delyth Crimes ac Enfys Needham Jones (ail a 3ydd rhwng 45 a 55.) Fel arfer yr oedd yna ras filltir i 66 o blant dan 12 oed a gwnaeth Harri Rivers a Tudur Llwyd yn dda i orffen yn y deg uchaf tra bod Elin Onwy a Non Crimes yn ail ac yn 5ed ferch i orffen.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET

Gwobr: Bag Siopa Clonc

I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i'ch enw ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

			9	8		3
		7				2
	8	3				4
	7		1	8	6	
		1		7		3
			2	3	5	6
8						6
		6				7
	2		6	1		

Swdocw Mai:

Llongyfarchiadau i: Gwendoline Jones, Llanybydder, a diolch i bawb arall am gystadlu: Richard Evans, Llanyby; Dai Jones, Alltyblaca; Joan Stacey, Ffaldybrenin; Eurwyn Davies, Llanybydder; Glenys Davies, Llanybydder a Sian Blake, Gorsgoch.

1	9	8	4	5	2	6	3	7
2	4	6	3	7	9	1	5	8
7	3	5	1	6	8	2	9	4
9	2	3	6	8	1	4	7	5
8	6	7	2	4	5	9	1	3
5	1	4	9	3	7	8	2	6
6	7	9	8	2	3	5	4	1
4	5	2	7	1	6	3	8	9
3	8	1	5	9	4	7	6	2

Llangybi a Betws

Adferiad

Dymunir adferiad llwyr a buan i Mrs Maisie Morgan, Bro Deri ar ôl iddi dreulio rhai dyddiau yn ysbty Bronglais. Brysiwch wella.

Hamdden

Cyfarfu yr aelodau ar Fai 4ydd yn ysgol y Dderi dan lywyddiaeth Janet Farrow. Treuliodd prynhawn hyfryd yng nghwmni ein gwahoddedigion Sian a Llinos o Gapel Dewi lle mae ganddynt Glinic i drin traed a lle y gellir cael gwahanol fathau o 'Fassage' yno hefyd. Cafwyd gwybodaeth ddiddorol ac awgrymiadau defnyddiol ganddynt. Talwyd pleidlais o ddiolch iddynt am brynghawn arbennig yn llawn gwybodaeth.

Enillwyd y raffl gan Wendy Davies, Janet Farrow, Maisie Morgans, Betty Lockyer, Mair Spate, Barry Williams, Rita Jones, Maureen Williams a Tegwyn Cornelious.

Gofynnir i'r aelodau i feddwl am enwau siaradwyr rhaglen 2018-2019, ac am wirfoddolwr ysgrifenyddol. Byddwn yn ail ymgynnull ym mis Hydref gan y bydd Clonc yn ymddangos wedi i ni gael ein taith flynyddol ar ddechrau mis Mehefin.

Maesyffynnon

Cynhelir Cyngerdd Blynnyddol Maesyffynnon ar Fehefin 17eg gyda ffrindiau yn ein diddanu. Cadeirydd y noson fydd y Parch Stephen Morgan, B Th. Bydd Pris Mynediad yn £5.00 a'r elw yn mynd tuag at gyllid y Capel. Croeso cynnes i bawb.

Adferiad

Dymunir adferiad llwyr a buan i Huw Evans, Godre'r Coed ar ôl iddo dderbyn llawdriniaeth yn ysbty Bronglais. Brysiwch wella.

Cyngor Bro

Gellir gweld y cyfrifon yn Maesyffynnon, 493325 o Fehefin 15fed hyd at Orffennaf 27ain, a hynny trwy wneud apwyntiad os gwelwch yn dda.

Merched y Wawr Y Dderi

Cyfarfu'r gangen ar Fai 16eg dan lywyddiaeth Gwyneth Jones a hi a fu'n croesawu pawb i'r cyfarfod. Ein gwraig wadd oedd y Fon Eirwen James a threuliodd orig ddifys yn ei chwmni. Bu'n sôn am lestr halen oedd yn ddi-werth yn ariannol ond yn arbennig o werthfawr iddi hi. Roedd yn ddigon adduniadol er bod twll ynddo. Y llestr bychan hwn oedd yn gyfrifol am ddatgelu rhan o hanes ei theulu a'r brwdfrydedd ynddi i chwilio ymhellach am achau ei theulu. Roedd yn noson ddiddorol dros ben i weld sut oedd yr hanes yn datblygu o ris i ris. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch i'r siaradwraig am noson hyfryd, ddiddorol a hanesyddol gan Deborah Jones.

Rhoddwyd y raffl gan Mair Morgan a Gwyneth Jones ac fe'u henillwyd gan Deborah Jones ac Ann Davies. Y swyddogion am y flwyddyn nesaf fydd:- Llywydd - Deborah Jones; Is-lywydd - Gwyneth Jones; Trysoryddes - Mary Jones; Ysgrifenyddes - Mair Spate.

I ddiweddu'r cyfarfod, cafwyd lluniaeth ysgafn yn rhoddedig gan Rita Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin 20fed yn Ysgol y Dderi ac yno y gwneir y rhaglen am y tymor nesaf. Dewch â'ch syniadau os gwelwch yn dda.

Ysgol Y Dderi

Er cof am ein ffrind annwyl Tristan.

Bu'n ddiddig ymhob digwydd - hyd ei oes
Bu'n llawn caredigrwydd.
Mewn tristwch rhoddwch yn rhwydd
Ddagrau ar foneddigrwydd.

Gwenallt

Sylwadur SNeMa gan Gary Slaymaker



Neuadd Mileniwm Cellan a Neuadd yr Hafod Gorsgoch yw'r llefydd am ffilmiau yn ardal Papur Bro Clonc a dyma Gary Slaymaker i sôn am y ffilmiau a ddangosir yng Nghellan yn yr wythnosau nesaf:

Nos Wener 15fed Mehefin - Victoria and Abdul

Mae 'Victoria and Abdul' yn stori wir, gyda bach o chware gyda ffeithiau fan hyn a fan draw ac yn sôn am y berthynas gyfeillgar ddatblygodd rhwng y Frenhines Victoria ac Abdul Karim, pan dda'th e draw o India i fod yn rhan o ddathliadau jiwibili aur y frenhines. Mae e'n agor ei llygaid hi i'r byd mawr o'i chwmpas, tra bod e'n cael ei wawdio a'i amau am fod mor agos i fenyw o'dd allan o'i haenen gymdeithasol e'n llwyr.

Ar ôl llwyddiant y ffilm Mrs. Brown, o'dd hi bron yn amhosib gwneud ffilm arall am Victoria a'i pherthynas gydag un o'r werin heb ofyn i Judi Dench ail gydio yn y rôl. A chware teg, hi, yn bendant, yw'r peth gorau am y ffilm. Mae'n berfformiad nerthol, clyfar, heb unwaith fod yn or-sentimental. Falle nad yw gweddill y cast yn cynnig yr un lefel o berfformiad (ma' Ali Fazal fel Abdul braidd yn llipla, fel cymeriad), ond ma' 'na lawer mwy o hiwmor na'r disgwyl yn perthyn i'r stori, ac mae'r holl beth yn symud yn sionc a dedwydd i ddiweddglo 'itha trist, mewn ffordd. Ma'r sinema Brydeinig wedi bod yn 'neud ffilmie fel hyn, yn dda iawn, ers blynnyddoedd, a ma' 'Victoria and Abdul' yn dangos bod y diwydiant heb golli ar y sgilie 'ma o hyd. Lot gwell nag ron i'n disgwyl, a pherfformiad perffaith arall gan Dench.

Nos Wener 6ed Gorffennaf - Breathe

'Breathe' yw ffilm gynta' Andy Serkis (Gollum yn Lord of the Rings) fel cyfarwyddwr, ac mae e wedi ffindo stori afaelgar, a gwneud jobyn ardderchog tu ôl i'r camera hefyd. Stori serch i ddechrau, sy'n dilyn anturiaethau'r gŵr a'r wraig, Robin a Diana Cavendish, wrth iddyn nhw fyw bywyd llawn hwyl ac antur...nes bod e'n cael ei daro'n wael gyda pholio pan yn 28 oed. Gyda'r doctoriaid ond yn barnu mai tri mis neith Robin bara, ma' Diana'n mynd ati, gyda chymorth ffrind i'r teulu, i greu offer arbennig bydd yn galluogi Robin i gael mwy o ryddid nag erioed o'r blaen. Stori serch draddodiadol, gyda'r math o elfennau rych chi'n gweld mewn ffilmiau fel Rocky, ac ati - llwyddo i wella'ch bywyd, er gwaetha'r holl broblemau. Mae'n stori sy'n gwisgo'i chalon ar ei llawes, ac mae cynhyrchydd y ffilm, Jonathon Cavendish, yn fab i'r pâr rhyfeddol yma. Dim rhyfedd felly bod hi'n teimlo fel stori mor bersonol a diffuant. Ma'r perfformiadau'n dda, mae'n edrych yn bert, ac er bod hi'r math o beth welech chi'n ddigon amal ar BBC 1 ar nos Sul ganol gaeaf, mae'n dal yn teimlo fel gwaith 'sinematig', ac yn hoelio'r sylw'n dda.

Mae drysau Neuadd Mileniwm Cellan yn agor am 7.15yh a'r ffilm yn dechrau am 7.45yh. Mynediad drwy rodd.

Dangosir ffilm yn Neuadd yr Hafod Gorsgoch ar nos Iau diwethaf y mis am 7.30yh. Mynediad am ddim.

COFIWCH
dal
£5 CLWB
CLONC

Rhifyn Gorffennaf
yn y Siopau
5 Gorffennaf
Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
25 Mehefin

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor - ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor ariannol i chi?

Os ydych wedi colli'r gwasanaeth hwn ac angen arweiniad proffesiynol, gallaf eich cynorthwyo!

Gyda thros 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnig cyngor ar:

Cynilo a Buddsoddi :: Yswiriant a Diogelu :: Cynllunio ar gyfer ymddeol

Taliadau treth :: Rheoli Ystad :: Morgeisi ac Yswiriant Cartref


Cysylltwch â mi am gyngor ariannol uniongyrchol:

Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP

M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com

www.richardjarman.tpllp.com



LYN JONES

"At eich gwasanaeth"



- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL

Plymio a Gwresogi **DANIEL DOUGHTY** Plumbing & Heating Services

Gas/LPG & Oil Services

Renewables • Installation
 Maintenance • Breakdowns
 Boiler Servicing • Sprinklers

07969 289679
 d.doughtyplumbing@gmail.com



Gwasanaethau Coed **Teifi** **Tree Services**



Pob math o waith ar goed
 Torri cloddiau * Plygu cloddiau
 Wedi yswirio'n llawn
 Dyfynbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
 01239 851001 / 07796 682448



01570 480 108

07811 701 857

office@ejonesplumbingandheatingltd.co.uk



Mwy na brocer yswiriant.
 Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
 Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
 21 Stryd Fawr, Llanbed
 Ceredigion, SA48 7BG
 Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk
Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y
 "Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.



Cyllid Amaethyddol, Adeiladu
 & Busnes • Offer Amaethyddol
 ac Adeiladu • Ceir a Cherbydau
 Masnachol • Cyfleusterau
 Amddiffiniad Offer Newydd a
 Ddefnyddir

Rheolwr Ardal: Bedwyr Davies
 07757 668339 / 01544 340562
 bedwyr@pjfinancialsolutions.co.uk
 www.pjfinancialsolutions.co.uk

Authorised and regulated by the
 Financial Conduct Authority No FRN 690293

Clwb Clonc

Mehefin

£25 rhif 474 :
 Mrs Heledd Tomos,
 Llanfihangel ar arth
 £20 rhif 130 :
 Mrs Elinor Edwards,
 Llangeitho
 £15 rhif 57 :
 Mrs Mair Davies,
 Llanwenog
 £10 rhif 217 :
 Alun James,
 Llanybydder
 £10 rhif 205 :
 Gareth Morgan-Isaac,
 Llanbed
 £10 rhif 188 :
 Gethin Hatcher,
 Gorsgoch
 £5 rhif 190 :
 Sioned Hatcher,
 Llanwenog

Colofn C.Ff.I.

Ceredigion

Bu dros 60 o aelodau CFFI
 Ceredigion yn CCB NFYFC ar
 benwythnos gŵyl y banc 5-7fed o
 Fai. Llwyddodd Cennydd Jones,
 Pontsian i ddod yn ail fel Aelod Hŷn
 Cymru a Lloegr.

Cynhaliwyd chwaraeon y sir yn
 Llanbedr Pont Steffan ar y 12fed
 o Fai. Bydd canlyniadau llawn y
 dydd yn cael eu cyhoeddi gyda
 chanlyniadau'r athletau ar ddiwedd
 Mehefin. Dyma'r enillwyr: Pêl droed
 - Felinfach/ Bro'r Dderi; Pêl Rwyd
 - Llanddewi Brefi/ Tregaron; Ffrisbi
 - Troedyaaur; Rownderi - Felinfach;
 Hoci - Troedyaaur; Dodgeball
 - Llanddewi Brefi/ Tregaron; Rygbi
 Cyffwrdd - Troedyaaur

Cofiwch fynd ar wefan y sir i weld
 fideos hyfforddi'r sir.

Clwb 200: 1 - Adrian Colbourne,
 Anor, Ffostrasol; 2 - Mererid Jones,
 Pantyrhen, Ciliau Aeron; 3 - Anne
 Jones, Llety Aur, Ystrad Aeron.

Dyddiau i'ch dyddiadur: 20fed o
 Fehefin - Pwyllgor Gwaith; 27ain
 o Fehefin - Athletau'r sir; 29ain o
 Fehefin - Rygbi 7 bob ochr.



CELFI CEGIN A 'STAFELL
 WELY WEDI'U FFITIO,
 ATEGOLION CEGIN,
 CYFARPAR TRYDAN,
 TEILS WAL A LLAWR

SGWÂR Y FARCHNAD,
 LLANYBYDDER

01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

Llanwnnen

18 oed

Dathlodd Gareth Jones, Neuadd ei
 ben-blwydd yn 18oed ar ddechrau
 mis Mai. Gobeithio i ti fwynhau'r
 dathlu.

Priodas Ruddem

Ar ddechrau mis Mehefin fe
 ddathlodd Ieuan a Shân Davies, 15
 Bro Grannell eu Priodas Ruddem.
 Llongyfarchiadau mawr ac iechyd da
 eto am flynyddoedd lawer.

Sefydliad y Merched

Ar y 9fed o Ebrill 2018 cyfarfu'r
 aelodau yn Ffestri Capel-y-Groes a
 chroesawyd Tracy Jones o Lanllwni
 i arddangos y breichledau lliwgar
 mae'n eu gwneud. Mae'n amlwg ei
 bod yn greadigol a chanddi amynedd
 Job i greu gemwaith deniadol i'r
 llygad. I ddilyn, cafwyd sesiwn
 ymarferol gyda'r aelodau i gyd yn
 mwynhau'r cyfle i wneud breichled
 yr un. Ar ddiwedd y noson bu Tracy
 yn beirniadu cystadleuaeth y mis,
 sef y blwch tlysau pertaf. Ceinwen
 Roach oedd yr enillydd, gydag
 Avril Jones yn ail a Shan Lewis yn
 drydydd. Bu Tracy mor garedig
 hefyd â rhoi breichled yn wobwr ar
 gyfer raffl y noson ac Avril fu'n
 ddigon ffodus i'w hennill.

Y mis canlynol cynhaliodd yr
 aelodau eu cyfarfod ar y 14eg o
 fis Mai ac ar ôl trafod y materion
 busnes perthnasol croesawyd
 Mererid Jones, Swyddog Prosiectau
 ac Ymgysylltu Gwastraff Cyngor
 Sir Ceredigion i esbonio systemau
 casglu gwastraff ac ailgylchu'r
 Awdurdod. Treuliodd noson
 ddiddorol a buddiol yn ei chwmmi
 a dysgodd pob un ohonom gryn
 dipyn am yr hyn y dylem ac na
 ddylem ei wneud gyda'n gwastraff



Yn Eisteddfod Gadeiriol Talgarreg
 ar Ddydd Sadwrn, Mai 5ed, enillydd
 Tlws yr Ifanc oedd Twm Ebbsworth,
 Llanwnnen.

e.e. ni ellir rhoi pcedi creision
 mewn bag ailgylchu - rhaid eu
 rhoi, yn hytrach, mewn bag
 du. Rhaid rhoi menig rwber,
 sribedi tabledi a phapur meny
 hefyd mewn bag du. Dysgom
 am siwrnai ein gwastraff drwy'r
 prosesau ailgylchu, yr arbedion
 ariannol sydd wedi'u cyflawni
 o ganlyniad i newid cryfder y
 bagiau ailgylchu ac am dargedau
 ailgylchu'r sir a'r nod terfynol o
 ailgylchu popeth, gan sicrhau nad
 oes dim yn mynd i'r safleoedd
 tirlenwi. Roedd y cyfan yn agoriad
 llygad i ni. Cyn diwedd y noson,
 cynhaliwyd y gystadleuaeth fisol,
 sef 'eitem â smotiau' a chafodd ei
 beirniadu gan Mererid. Enillwyd
 y gystadleuaeth gan Shan Lewis,
 gyda Carol Thomas yn ail a Rose
 Bull yn drydydd. Enillwyd raffl y
 noson gan Doris Davies a thalwyd y
 diolchiadau gan Avril.

Eisteddfod Pontrhydfendigaid



Grŵp telynau Tannau Cothi sef Swyn, Alwena ac Elan yn ennill
 cystadleuaeth Ensemble offerynnol yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid. Diolch
 i Georgina am eu hyfforddi.

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llanbed
☎ 01570 422517 post@adve.co.uk

Carpedi

Gwyn Lewis
Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Mwnici ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llanbed

☎ 01570 423135
☎ 07811917799 /
07968821035
✉ mwniciffwnci@hotmail.com

MIS y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Gwledydd yr awyren isel

Mae o rywbeth yn debyg i edrych i lawr ar wlad o awyren wrth iddi lanio. A hithau ar ei huchder mwya', welwch chi ddim ond siâp bras y tir, mynyddoedd, dyffrynnoedd, tir gwastad, môr.

Wrth i chi ddechrau disgyn, mae patrymau eraill yn dod yn glir - caeau, cloddiau, ffyrdd a llwybrau - a'r hyn oedd yn ddarlun un lliw bron yn troi'n batrwm o felyn a gwyrdd, gwyn a gwinau.

Peth felly ydi dod i nabod gwlad yn well a sylweddoli nad un math o bobol sydd yno a bod yna amrywiaeth mawr o fewn un darn o dir yr oeddech chi cyn hynny yn ei weld yn un.

Dyna'r meddyliau wrth deithio ychydig ar ogledd Gwlad Groeg i wneud rhaglen radio a sylweddoli nad un grŵp pawb-yr-un-peth ydi'r Groegiaid chwaith. O grwydro ychydig mae'r wlad gnotiog-ei-siâp ar fap Ewrop yn datblygu cyfoeth newydd.

I ddechrau, wrth gwrs, mae gan bob gwlad trwy'r byd bellach, siŵr o fod, ei mewnfudwyr. Rhai ohonyn nhw'n aros yn ddiethriaid am byth, rhai ohonyn nhw'n dod yn rhan o'r bobol leol ond, eto, ychydig bach yn wahanol.

Yng Ngwlad Groeg, un o'r rheiny ydi'r wraig sy'n cyfieithu i ni, yn uniongyrchol o Roeg i Gymraeg. Un o Lanbed ydi Bethan Davies, mae llawer o'i theulu yma o hyd ac mae'n galw adre'n gyson. Ond mae hefyd yn siarad Groeg yn rhugl ac wedi ymroi i fywyd mewn tre' sydd heb fod ymhell o fynydd Olympus ei hun.

A heb fod ymhell o fan'no y daethon ni ar draws yr amrywiaeth.

I bob golwg, roedd y pentre'n edrych yn debyg i unrhyw bentre' amaethyddol arall tua gogledd y wlad, gyda'i dai isel, ei gaeau o goed olewydd yn gymysg gydag ambell gae llafur a choedydd ffrwythau. Tractor bach a thai mas wrth ochr rhai o'r tai a lori'n llwythog o fêls bach yn agos at sgwâr y pentre'.

Ar y sgwâr hefyd mae un o'r bariau-gaffis yna sy'n ganolbwynt i bentrefi ar hyd a lled cyfandir Ewrop ac ar ddydd Sadwrn ola' mis Mai, roedd y lle'n llawn. Petawn i wedi galw heibio heb wybod, mi fyddwn wedi meddwl mai Groegiaid oedd pawb.

Ond roedd rhai yno'n bwrpasol i gwrdd â ni, er mwyn rhoi blas i ni o'u diwylliant arbennig nhw. Dyma'r Flachiaid, llwyth, neu efallai genedl, o bobol sydd wedi eu lledaenu ar draws rhannau helaeth o'r rhan yma o'r byd - o Roeg i Fwlgaria a Romania ac Albania hefyd.

Pobol hanner-grwydrol oedden nhw tan yn ddiweddar iawn. Roedd pobol yn y pentre'n cofio mynd â'u defaid tros ddegau a channoedd o filltiroedd ddwywaith y flwyddyn - i'r hendre' ar lawr gwlad yn y gaeau ac i'r hafodydd uchel yn yr ha'.

Mae ganddyn nhw eu hiaith eu hunain ac mae eu henw - Vlach - yn deillio o'r un gwraidd Almaenig â'r gair Saesneg amdanon ninnau - Wales. Y ddau enw wedi'u rhoi arnon ni gan bobloedd mwy pwerus er mwyn ein disgrifio - dieithriaid.

Roedd yna griw o wragedd hŷn wedi dod at ei gilydd i ganu i ni - tair neu bedair o ganeuon gwerin araf eu rhythm a dolefus eu sŵn yn trafod poenau cariad a thrafferthion priodi. Caneuon oedd wedi'u trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth heb erioed gael eu sgrifennu.

Dydi iaith y Vlachiaid, sy'n deillio o'r Lladin, ddim wedi'i chofnodi ar bapur erioed; dyna un o'r rhesymau pam ei bod yn dirywio. Ar ben hynny, dydi Gwlad Groeg ddim yn cydnabod grwpiau iaith na chenhedloedd gwahanol o fewn eu tir - pobol yr awyren uchel yw ei llywodraeth hi.

Ac mae'r rhesymau eraill yn gyfarwydd ... newid ffordd o fyw, mwy o briodasau cymysg y tu allan i siaradwyr yr iaith a diffyg diddordeb wrth i bobol droi at atyniadau eraill. Er bod rhai'n ymdrech, mae'n bosib ein bod ni wedi gweld cynrychiolwyr un o'r cenedlaethau ola' i siarad Vlach yn rhugl.

Ac, os bydd hynny'n digwydd, mi fydd Groeg yn colli un o'i lliwiau.

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbed**

Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yb - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

Gwasanaethau Coed Llanbed



Gwêl-y-Coed, Cwmann
Llanbed, SA48 8EL
01570 422819

www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.



Mawrth ym 10:00 am
Agricultural Machinery

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewies.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



**COMPASS
OFFICE
SUPPLIES**

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llanbed, Heol Tregaron,
Llanbed.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

CANOLFAN ADDURNO

**AA
A**

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allweddi a
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543823

Caerwenog,
Penffordd,
Llangybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gâtiau a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

**WILLIAMS
& BOURNE**

CYFREITHWYR,
COMISIYNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llanbed**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul

Helo bawb! Croeso i Golofn y Dysgwyr. Dych chi wedi mwynhau'r tywydd braf? Dw i'n hoffi tywydd cynnes a sych. Dw i ddim yn hoffi tywydd gwlyb ac oer.

Dyma dasg fach i chi. Mae yna sawl ffordd yn Gymraeg i ateb cwestiwn gyda 'yes' neu 'no'. Mae'r gair sy'n cael ei ddefnyddio yn dibynnu ar ffurf y cwestiwn. Darllenwch y canlynol a thynnwch linell o'r cwestiwn i'r ateb cywir. Pob lwc!

✓ - 'Yes' ✗ - 'No'

1.	Wyt ti'n hoffi gwersylla?	(✗)	Ydyn
2.	Oes carafan gyda ti?	(✓)	Oedd
3.	Dych chi ac Anwen yn mynd i Sbaen?	(✓)	Nac ydyn
4.	Cyfreithwr wyt ti?	(✗)	Ydy
5.	Oedd hi'n heulog ddoe?	(✓)	Nac oedd
6.	Ydy e'n hoffi teithio?	(✗)	Ie
7.	Wyt ti a Sara'n hoffi hwylio?	(✗)	Nac ydw
8.	Ydy hi'n gymylog heddiw?	(✓)	Nage
9.	Oedd ceffyl gyda ti?	(✗)	Nac ydy
10.	Dafydd Evans dych chi?	(✓)	Oes

GEIRFA

tywydd - weather
braf - fine
cynnes - warm
sych - dry
gwlyb - wet
oer - cold
tasg - task
sawl - many
ffordd - way
gwersylla - to camp
cyfreithwr - solicitor
heulog - sunny

teithio - to travel
cwestiwn - question
gair - word
defnyddio - use
dibynnu - depend
ffurf - form/ format
darllenwch - read
canlynol - following
tynnwch linell - draw a line
ateb cywir - correct answer
hwylio - to sail
cymylog - cloudy
heddiw - today
ceffyl - horse

Gŵr o Aberystwyth yn cystadlu am deitl Dysgwr y Flwyddyn.

Mae pump o ddynion wedi dod i'r brig yng Nghystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn eleni a braf yw cyhoeddi mai Nicky Roberts o Aberystwyth yw un ohonyn nhw.

Roedd 23 o ymgeiswyr i gyd a chynhaliwyd y rownd gynderfynol yn yr Hen Lyfrgell yng Nghaerdydd.

Y beirniaid yw Lowri Bunford Jones, Carole Bradley a Lowri Haf Cooke a dyma'r trydydd tro yn hanes y gystadleuaeth i bump o bobl gael eu dewis ar gyfer y rownd derfynol.

Symudodd Nicky a'i wraig, Lara, i Aberystwyth yn 2017 er mwyn gallu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn wreiddiol o Gwm Rhondda, dewisodd Nicky astudio Technoleg Gwybodaeth yn hytrach na Chymraeg yn yr ysgol, gan ei fod yn awyddus i weithio ym maes TG. Flynyddoedd yn ddiweddarach beth bynnag, tra'r oedd allan yn Ffrainc adeg gemau'r Ewros yn 2016, penderfynodd y dylai fynd ati i ddysgu'r iaith.

Erbyn hyn, mae wedi bod yn dysgu Cymraeg am flwyddyn a hanner. Dywed Nicky bod dysgu siarad Cymraeg wedi trawsnewid ei fywyd a'i fod yn awyddus i rannu ei 'siwrnai ieithyddol' gydag eraill. Dyna pam felly yr aeth ati i greu'r sianel YouTube 'Learn Welsh with Nicky' sydd bellach yn boblogaidd iawn.

Bydd seremoni Dysgwr y Flwyddyn yn cael ei chynnal nos Fercher, 8 Awst yn 'Y Dosbarth, Coleg Caerdydd a'r Fro'. Llongyfarchiadau calonnog i ti Nicky a phob lwc yn y rownd derfynol.



CLONC

CLWB CLONC

Os na wnaethoch gytundeb archeb Banc y llynedd dyma gyfle i chwi wneud eleni. Bydd cael archeb Banc yn arbed llawer o waith i gasglu yr arian yn flynyddol. Llenwch y manylion isod a'i anfon yn ôl i Mrs Mary Davies, Maesglas, Drefach, Llanybydder, Ceredigion. SA40 9YB.

Wrth gwrs os hoffech barhau i dalu â siec neu arian parod mae croeso i chwi wneud hynny o hyd. Llenwch y rhan gyntaf o'r ffurflen a'i hanfon yn ôl gyda'r arian i'r cyfeiriad uchod.

Byddwn yn falch ei dderbyn mewn unrhyw ffordd, er mwyn parhad CLONC.



ENW:

CYFEIRIAD:

CÔD POST: RHIF FFÔN:

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i Clonc gyhoeddi'ch enw ac enw'ch pentref petaech yn ennill gwobr.

ARCHEB BANC / STANDING ORDER

I / To [eich banc chwi / to your bank] Banc / Bank

Rhif didoli / Sort Code: - - - - -

Cyfeiriad y Banc / Bank Address:

Taler / Please pay €Nat West, Llambod 53-61-42

I gyfrif / for the credit of CLWB CLONC Rhif cyfrif: 03451526

Y swm o / the sum of £

I ddechrau ar / commencing 1af o Orffennaf 2018 Ac yn flynyddol wedi hynny ar Orffennaf 1af
1st July 2018 Thereafter annually on 1st July

nes y derbynwch rybydd pellach gennych drwy lythyr / until you receive further notice from me in writing.

Enw'r cyfrif i'w ddebydu / Name of account to be debited:

Rhif y cyfrif banc / Account no: Llofnod / Signature:



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl ffrindiau,


Helo blant, sut ydych chi? Wel wrth i mi ysgrifennu'r llythyr yma atoch mae'r haul yn gwenu'n braf arnaf ac rwyf wrth fy modd yn torheulo yn yr ardd. Digon o hufen iâ a sudd afal oer. O dyma'r bywyd i grwbau diog a hapus fel fi!

Fe wnaeth nifer ohonoch chi blant fynd ati i liwio'r adnoddau garddio mis diwethaf. Da iawn chi wir. Roeddwn yn hoff iawn o lun Sara Fflur Pugh o Ffair Rhos ac Erin Mair Evans o Lanllwni. Da iawn chi'ch dwy. Serch hynny llun gorau'r mis oedd un Iestyn Daniel Evans, Park Lane, Llanllwni. Llongyfarchiadau mawr i ti Iestyn!

Wel mae llawer ohonoch chi siŵr o fod wedi bod am dro i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanfair-ym-Muallt dros wyliau'r hanner tymor. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonoch a fu'n cystadlu boed yn y rhagbrofion neu ar lwyfan y Pafiliwn mawr. Roeddwn wrth fy modd yn gwyllo'r Eisteddfod ar y teledu bob dydd. Ond pan nad oeddwn yn gwyllo'r teledu mi fues i am dro i wneud yn siŵr fod fy mlodau yn tyfu. Pan oeddwn allan yn yr ardd mi gwrddais â ffrind bach newydd, Poli'r Pili Pala. Mae hi wrth ei bodd yn hedfan o gwmpas fy ngardd gan lano ar ambell flodyn prydfarth. Felly mis yma, beth am fynd ati i liwio llun o Poli'r Pili Pala yn yr ardd? Cofiwch ddychwelyd y llun i mi erbyn dydd Llun, Mehefin 25ain.

Ta ta tan toc.

Lincyn Lincyn



**Enillydd
y mis!**

**Iestyn
Daniel
Evans**

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:



Ticiwch os ydych yn fodlon i enw'ch plentyn ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

Llofnod Rhiant/Ceidwad:

Canser yr Ysgyfaint yng Ngorllewin Cymru

Yr hyn sydd angen i chi ei wybod

Canser yr ysgyfaint yw'r canser mwyaf cyffredin yn y byd a dyma'r achos mwyaf cyffredin o farwolaeth canser yn y DU mewn dynion a menywod, ac i ferched yn benodol mae hyn ar gynydd.

Yn y DU yn unig, mae 44,000 o achosion newydd yn cael eu diagnosio bob blwyddyn. Mae'n fwy cyffredin mewn ysmygwyr ond nid yw 1 person mewn 8 ohonynt erioed wedi ysmegu. Mae ysmegu yn gyfrifol am 90% o achosion canser mewn dynion a 78% o achosion mewn menywod. Mae canfod canser yr ysgyfaint yn gynnar yn gwella'r siawns o wella, ond dim ond 17% o achosion a geir yn gynnar. Mae 70% o gleifion sy'n cael diagnosis o ganser yr ysgyfaint yn marw o fewn y flwyddyn gyntaf, oherwydd eu bod yn hwyr yn mynd i weld meddyg.

Mae'n ffaith drist bod cleifion canser yr ysgyfaint yng Nghymru â'r cyfraddau goroesi isaf yn Ewrop. Yn fwy lleol, nododd adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru sef Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru yn 2015 mai canran cleifion canser yr ysgyfaint yn ardal Hywel Dda oedd yn hwyr yn mynd i weld meddyg oedd 68.8% yn erbyn cyfartaledd cenedlaethol o 63.6%. Yma hefyd mae'r canran isaf o gleifion sy'n mynd i weld meddyg yn gynnar sef 15% yn erbyn cyfartaledd cenedlaethol o 17%. Efallai bod yr amrywiadau hyn yn ymddangos yn fach, ond maen nhw'n arwyddocaol o ran cyfraddau goroesi.

Y newyddion da yw bod yna lawer o bethau y gallwch eu gwneud i wella'n sylweddol eich siawns o oroesi os ceuwch ddiagnosis o'r cyflwr hwn sy'n bygwth bywyd, ond yr allwedd yw adnabod yr arwyddion yn gynnar a mynd i weld meddyg. Mae yna nifer o symptomau y dylech fod yn ymwybodol ohonynt gan gynnwys; peswch nad yw'n pallu, teimlo'n fyr o anadl heb unrhyw reswm, poen yn y frest neu'r ysgwydd, haint y frest, codi gwaed wrth beswch neu waed yn eich poer, llais cryglyd, peswch parhaus

sy'n newid neu'n gwaethygu, blinder heb esboniad neu ddiffyg egni a cholli pwysau heb ddeall pam.

Wrth sôn am hyn, dywedodd Robbie Ghosal, Meddyg Ymgynghorol ac Ymgynghorydd Arbenigol Coleg Brenhinol y Meddygon ar Feddygaeth Resbiradol yng Nghymru: "Os ydych chi'n profi unrhyw un o'r symptomau hyn, peidiwch ag oedi cyn ymweld â'ch meddyg teulu, hyd yn oed os nad ydych chi'n ysmegu. Mae'n debygol na fydd hyn yn unrhyw beth difrifol ond fe fydd yn rhoi tawelwch meddwl i chi. Os ydyw'n ganser yr ysgyfaint, mae diagnosis cynnar yn golygu bod mwy o opsiynau o ran triniaeth ar gael i chi sydd, yn gyffredinol, yn fwy effeithiol ac a allai achub eich bywyd yn y pen draw."

Ychwanegodd Dr Gareth Collier, Ymgynghorydd Resbiradol ac Arbenigwr Canser yr Ysgyfaint, "Nid ydych chi'n gwastraffu amser eich meddyg trwy wirio'ch symptomau. Mae'n debygol y bydd eich meddyg yn gofyn am fwy o wybodaeth am eich peswch ac unrhyw symptomau eraill ac efallai y bydd yn awgrymu y dylech gael pelydr-X o'r frest sy'n weithdrefn safonol. Yn dilyn hyn, efallai bydd angen sgan CT, hyd yn oed os yw'r pelydr-X o'r frest yn normal. Mae'n hanfodol adnabod yr arwyddion rhybudd a chael sylw meddygol yn brydlon. Mae canfod canser yr ysgyfaint yn gynnar yn golygu ei bod yn fwy tebygol y bydd yn cael ei drin yn llwyddiannus."

Felly, beth allwch chi ei wneud i leihau eich risg o ganser; cael help i roi'r gorau i ysmegu, lleihau ar ddod i gysylltiad â mwg ail-law, gall deiet fod yn bwysig, bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd, bwyta llai o fraster, bwyta llai o halen a siwgr, yfed llai o alcohol a gwneud ymarfer corff rheolaidd.

Mae'r ymgyrch hon wedi ei halinio â Diwrnod Canser y Byd sy'n digwydd ar 4 Chwefror. Mae Diwrnod Canser y Byd yn uno poblogaeth y byd yn y frwydr yn erbyn canser â'r nod o arbed miliynau o farwolaethau y gellir eu hatal bob blwyddyn trwy godi ymwybyddiaeth ac addysgu am y clefyd, gan roi pwysau ar lywodraethau ac unigolion ar draws y byd i weithredu.

Aduniad Ysgol 1963



Cyn-ddisgyblion Ysgol Uwchradd Llambled yn cwrdd yng Nghlwb Rygbi Llambled am ginio aduniad. Gan fod tua phum deg pum mlynedd wedi mynd heibio ers iddynt gychwyn yn yr ysgol nôl yn 1963, roedd yna sawl stori ddifyr i'w hadrodd!

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl.
Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Brecs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305



FELLY, BLE AWN NI Y PENWYTHNOS HWN?

Mynd i Gerdded, Siopa,
Ciniawa, Cwrdd â Ffrindiau?

Mae'r Dewisiadau'n Ddiddiwedd!



Beth am fanteisio ar deithiau am ddim as
benwythnosau ar y gwasanaethau Trawscymru T1 a T5

A ydych yn adnabod
rhywun a hoffai fod
yn fwy annibynnol a
chwedd â phobl
newydd?



Os ydynt yn byw mewn
cymuned wledig ac nad
oes ganddynt wasanaeth bws rheolaidd,
gallai Bwcabus helpu.

Mae'r gwasanaeth bws yn ôl y galw ar gael
chwe diwrnod yr wythnos o ddydd Llun i
ddydd Sadwrn rhwng 7am a 7pm.

Mae'n mynd â theithwyr i drefi /pentrefi lleol
neu'n cysylltu â gwasanaethau T1 a T5
Trawscymru, gwasanaeth 460 a phrif
wasanaethau bysiau eraill i deithio
i Aberaeron, Aberystwyth,
Aberteifi a Chaerfyrddin.



Rhodffôn
Freephone 0800 464 00 00





Ceir adroddiad CFfi Llanllwni ar dudalen 14.



Ceir adroddiad CFfi Cwmann ar dudalen 5.

